**ADRODDIAD YMGYNGHORI**

# *CANLYNIAD YR YMGYNGHORIAD YNGHYLCH Y CYNNIG I FODERNEIDDIO YSGOLION GORLLEWIN PEN-Y-BONT AR OGWR*

## *Diben yr adroddiad*

Diben yr adroddiad cyhoeddus hwn yw hysbysu ynghylch canlyniad yr ymgynghoriad ynghylch y cynnig i Foderneiddio Ysgolion Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr.

## *Cyswllt â'r Cynllun Corfforaethol / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill*

Mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn cefnogi nifer o'r blaenoriaethau corfforaethol ac yn enwedig:

Gweithio gyda'n gilydd i godi uchelgeisiau a gwella cyflawniad addysgol

## *Cefndir*

Ar 3 Mawrth 2015, cafwyd cymeradwyaeth gan y Cabinet i'r Cyngor fabwysiadu egwyddorion diwygiedig fel fframwaith ar gyfer trefniadaeth ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Nodwyd pum egwyddor allweddol i oleuo cynlluniau i drefnu a moderneiddio ein hysgolion, sef:

- ymrwymiad i safonau uchel a rhagoriaeth o ran y ddarpariaeth;
- cyfle cyfartal, fel bod yr holl ddisgyblion yn gallu cael mynediad at gyfleoedd dysgu o ansawdd, ni waeth pa ysgol y maent yn ei mynychu;
- ysgolion cynhwysol, sy'n diwallu anghenion dysgu eu holl ddisgyblion;
- ysgolion bro, lle mae'r ysgol yn ymgysylltu'n frwd â'i chymuned leol; a
- gwerth am arian.

Mae'r Fframwaith Polisi a Chynllunio'n nodi 17 o feysydd lle dylai'r egwyddorion hyn gael eu rhoi ar waith yn ymarferol.

Yr egwyddorion sy'n arbennig o berthnasol yng nghyd-destun Band B yw:

- maint ysgolion cynradd (i sicrhau bod "holl ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr yn ddigon mawr i wneud yr ystod lawn o ddarpariaeth sy'n angenrheidiol"); a
- gwerth am arian, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ("cau'r bwlch rhwng y ddarpariaeth fwyaf a lleiaf drud ar hyn o bryd").

Yn ei gyfarfod ar 21 Ionawr 2020, rhoddodd y Cabinet gymeradwyaeth i fwrw ymlaen â'r cynnig ar gyfer Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr trwy drefniadau cyllido'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Y ffordd ymlaen a ffefrir ar gyfer cynllun Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr yw:

adeiladu ysgol cyfrwng Saesneg newydd â dwy ffrwd ar safle – sy'n addas ar gyfer Ysgolion Cynradd Afon y Felin a Chorneli ar y cyd); ac

adeiladu ysgol cyfrwng Cymraeg newydd â dwy ffrwd ar safle – sy'n addas ar gyfer Ysgol Y Ferch O'r Sgêr wedi'i hehangu

Y safleoedd a ffefrir ar gyfer yr ysgolion newydd a bennwyd gan y Cabinet oedd y safle ar Ystâd Marlas sy'n eiddo i gymdeithas tai Cymoedd i'r Arfordir (V2C) a safle presennol Ysgol Y Ferch O'r Sgêr/Canolfan Blant Integredig Corneli/Ysgol Gynradd Corneli.

Yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr 2021, rhoddodd y Cabinet ganiatâd i ymgynghori'n ffurfiol ynghylch y cynnig ar gyfer Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

## *Y sefyllfa ar hyn o bryd*

Er mwyn bwrw ymlaen â'r cynnig, cynhaliwyd ymarferion ymgynghori rhwng 25 Ionawr 2021 a 7 Mawrth 2021 yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol. Trefnwyd fod copi o'r ddogfen ymgynghori ar gael yn ystod y cyfnod hwn ar wefan y Cyngor:

Ymgynghoriad Ysgolion Cynradd Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr

Roedd y ddogfen ymgynghori'n gwahodd pobl i gyflwyno'u safbwyntiau a'u barn mewn perthynas â'r cynnig. Ceir rhestr o randdeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy yn atodiad 11.

## *Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad*

Roedd y pwyntiau allweddol o'r ymarfer ymgynghori fel a ganlyn, gyda'r manylion llawn wedi'u hatodi ar ddiwedd yr adroddiad hwn. O ganlyniad i effaith pandemig COVID-19, nid oedd yn bosibl cynnal cyfarfodydd agored i ymgynghori â rhanddeiliaid (fel arfer byddai'r Awdurdod yn cynnal cyfarfodydd o'r fath yn ychwanegol at ymgynghori trwy ei wefan gorfforaethol). Fodd bynnag, roedd yn bosibl cwrdd 'yn rhithwir' â disgyblion, staff a llywodraethwyr er mwyn ymgynghori â hwy.

## *Ymgynghori â disgyblion*

Cyfarfu Cyngor Ysgol Gynradd Corneli yn rhithwir gyda chynrychiolwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 11 Chwefror 2021 i drafod y cynnig. Cafodd y disgyblion fersiwn o'r Ddogfen Ymgynghori a oedd yn addas i blant cyn y cyfarfod a gofynnwyd iddynt am eu barn. Ceir manylion llawn y trafodaethau yn y cyfarfod a'r ymatebion/esboniadau a roddwyd yn Atodiad 1 o'r adroddiad ymgynghori hwn.

Roedd y prif bryderon i ddisgyblion Ysgol Corneli'n ymwneud â pha gyfleusterau fyddai gan yr ysgol newydd a pha mor fawr fyddai'r dosbarthiadau. Eglurodd cynrychiolwyr y Cyngor, er nad oedd gwaith dylunio manwl wedi cael ei wneud eto,

y byddai digon o le awyr agored yn cael ei ddarparu gan gynnwys lle cylchdroi, meysydd chwarae (cae pob tywydd o bosibl), cyrtiau chwaraeon, ardaloedd chwarae meddal, ardaloedd chwarae caled ac ardaloedd cynefin. Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, byddai cyfarfodydd pellach gyda disgyblion yn cael eu trefnu fel bod disgyblion yn gallu rhoi mewnbwn i'r broses ddylunio. Eglurodd cynrychiolwyr y Cyngor hefyd y byddai gan yr ysgolion newydd arfaethedig nifer fwy o ddosbarthiadau ar y cyfan, h.y. dwy ffrwd ym mhob grŵp blwyddyn, ond na fyddai capasiti'r ystafelloedd dosbarth unigol yn fwy (byddai mwy ohonynt, dyna'r oll). Cynhaliwyd pleidlais ar ddiwedd y cyfarfod gan y Cyngor Ysgol i ganfod a oedd y disgyblion yn teimlo bod y cynnig yn syniad da ynteu'n syniad gwael ar y cyfan. Roedd pob un o'r 10 disgybl a oedd yn bresennol yn cytuno eu bod yn teimlo'i fod yn syniad da.

Cyfarfu Cyngor Ysgol Gynradd Afon y Felin yn rhithwir gyda chynrychiolwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 11 Chwefror 2021 i drafod y cynnig. Cafodd y disgyblion fersiwn o'r Ddogfen Ymgynghori a oedd yn addas i blant cyn y cyfarfod a gofynnwyd iddynt am eu barn. Ceir manylion llawn y trafodaethau yn y cyfarfod a'r ymatebion/esboniadau a roddwyd yn Atodiad 2 o'r adroddiad ymgynghori hwn.

Roedd y prif bryderon ar gyfer disgyblion Ysgol Gynradd Afon Y Felin yn ymwneud â symud o ysgol fach i ysgol fwy, pa gyfleusterau fyddai gan yr ysgol newydd a pha un a fyddent yn cael athrawon newydd. Eglurodd cynrychiolwyr y Cyngor, er nad oedd gwaith dylunio manwl wedi cael ei wneud eto, y byddai digon o le'n cael ei ddarparu gan gynnwys lle cylchdroi, meysydd chwarae, cyrtiau chwaraeon, ardaloedd chwarae meddal, ardaloedd chwarae caled ac ardaloedd cynefin. Eglurodd cynrychiolwyr y Cyngor ei bod yn debygol y byddai'r holl athrawon presennol (o Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon y Felin) yn trosglwyddo i'r ysgolion newydd, gan olygu na fyddai disgyblion yn cael athrawon newydd o anghenraid. Er y byddai gan yr ysgolion newydd arfaethedig nifer fwy o ddosbarthiadau, h.y. dwy ffrwd ym mhob grŵp blwyddyn, ni fyddai capasiti'r ystafelloedd dosbarth unigol yn fwy (byddai mwy ohonynt, dyna'r oll). Byddai'r Awdurdod yn dymuno cynnal yr 'ethos' ysgol fach presennol yn yr ysgol newydd. Fodd bynnag, os oes gan bobl bryderon o hyd, dylent ymateb i'r ymgynghoriad gan ddweud beth ydynt. Cynhaliwyd pleidlais ar ddiwedd y cyfarfod gan y Cyngor Ysgol i ganfod a oedd y disgyblion yn teimlo bod y cynnig yn syniad da ynteu'n syniad gwael ar y cyfan. Roedd pob un o'r chwe disgybl a oedd yn bresennol yn cytuno, ar hyn o bryd, ei bod yn rhy gynnar i wybod a oedd y cynnig yn syniad da ynteu'n syniad gwael.

Cyfarfu Cyngor Ysgol Gynradd Y Ferch O'r Sgêr yn rhithwir gyda chynrychiolwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 11 Chwefror 2021 i drafod y cynnig. Cafodd y disgyblion fersiwn o'r Ddogfen Ymgynghori a oedd yn addas i blant cyn y cyfarfod a gofynnwyd iddynt am eu barn. Ceir manylion llawn y trafodaethau yn y cyfarfod a'r ymatebion/esboniadau a roddwyd yn Atodiad 3 o'r adroddiad ymgynghori hwn.

Roedd y prif bryderon ar gyfer disgyblion Ysgol Y Ferch O'r Sgêr yn ymwneud â thraffig a mynediad, defnyddio'r ardal goedwig a darparu ardaloedd chwarae mwy. Eglurodd cynrychiolwyr y Cyngor y byddai mynedfeydd a mannau gollwng yn cael eu pennu ar adeg y gwaith dylunio manwl, ac y byddent yn ddiogel ac yn cael eu goleuo gan Asesiad Trafnidiaeth Llawn (Mae Asesiadau Trafnidiaeth yn ystyried effaith y datblygiad ar yr holl ddulliau cludiant, yn nodi cynigion i leihau i'r eithaf

effaith y datblygiad ar y rhwydwaith trafnidiaeth ac yn hyrwyddo mesurau i hybu cludiant sy'n gynaliadwy ac yn ecogyfeillgar). Er nad yw'r gwaith dylunio manwl wedi cael ei wneud eto, mae'n debygol y bydd ardal goedwig/ardal gynefin yn cael ei chynnwys yn y dyluniad ac felly hefyd feysydd chwarae, cyrtiau chwaraeon, ardaloedd chwarae meddal, ardaloedd chwarae caled. Dywedodd cynrychiolydd y Cyngor, pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, y byddai'n dychwelyd at y Cyngor Ysgol ar adeg y gwaith dylunio manwl (gan y byddai'n dymuno cynnwys disgyblion yn y broses ddylunio). Cynhaliwyd pleidlais ar ddiwedd y cyfarfod gan y Cyngor Ysgol i ganfod a oedd y disgyblion yn teimlo bod y cynnig yn syniad da ynteu'n syniad gwael ar y cyfan. Roedd pob un o'r tri disgybl a oedd yn bresennol yn cytuno eu bod yn teimlo'i fod yn syniad da.

## *Ymgynghori â Staff a Chyrff Llywodraethu*

Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori 'rhithwir' gyda chynrychiolwyr staff a Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Corneli ar 1 Mawrth 2021. Ceir manylion llawn y trafodaethau yn y cyfarfod a'r ymatebion/esboniadau a roddwyd yn Atodiad 4 o'r adroddiad ymgynghori hwn. Codwyd cwestiynau a oedd yn ymwneud yn bennaf ag effeithiau posibl y cynnig ar gyflogaeth staff. Eglurodd cynrychiolwyr y Cyngor mai Corff Llywodraethu cysgodol yr ysgol fyddai'n gyfrifol am bennu'r strwythur staffio. Unwaith y bydd y broses ymgynghori wedi cael ei chwblhau a phenderfyniad wedi cael ei wneud ynghylch bwrw ymlaen â'r cynnig neu beidio, byddem yn dechrau ymgynghori â'r ysgolion ynghylch y strwythur cyn gynted â phosibl. Bydd Adran Adnoddau Dynol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn rhoi cymorth os oes gan unrhyw un unrhyw bryderon ynghylch y newid arfaethedig

Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori 'rhithwir' gyda chynrychiolwyr staff a Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Afon y Felin ar 1 Mawrth 2021. Codwyd cwestiynau a oedd yn ymwneud yn bennaf ag effeithiau posibl y cynnig ar gyflogaeth staff, pryd fyddai'r ysgol yn cael ei dylunio ac effaith symud o ysgol fach i ysgol fwy. Ceir manylion llawn y trafodaethau yn y cyfarfod a'r ymatebion/esboniadau a roddwyd yn Atodiad 5 o'r adroddiad ymgynghori hwn. Eglurodd cynrychiolwyr y Cyngor, er mai penderfyniad i'r Corff Llywodraethu yw staffio yn y pen draw, na fyddai'r Awdurdod yn dymuno gweld newidiadau gan y teimlir y byddai cadw 'wynebau cyfarwydd' o fudd i'r disgyblion. Byddai ymarfer 'paru a slotio' yn cael ei ddefnyddio i benodi o'r gronfa bresennol o staff i'r swyddi yn yr ysgol newydd (gyda cheisiadau'n cael eu gwahodd o'r gronfa bresennol o staff ar gyfer unrhyw swyddi cwbl newydd neu wahanol). Pe bai'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, rhagwelir y byddai cais Cam 1 y Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn cael ei gyflwyno ym mis Mehefin 2021 ac y byddai'r gwaith dylunio'n dechrau ar ôl hynny. Dywedodd cynrychiolwyr y Cyngor y byddai cyfleoedd cynyddol a gyflwynir gan ysgol newydd, fwy yn wych. Byddai'r Awdurdod Lleol hefyd yn ceisio trosglwyddo'r 'ethos' ysgol fach presennol i'r ysgol newydd.

Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori 'rhithwir' gyda chynrychiolwyr staff a Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Y Ferch O'r Sgêr ar 25 Chwefror 2021. Codwyd cwestiynau a oedd yn ymwneud yn bennaf â'r posibilrwydd o gyllideb ddiffygiol, dyluniad yr ysgol a'r diffyg mapiau o ddalgylchoedd cyfrwng Cymraeg ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Ceir manylion llawn y trafodaethau yn y cyfarfod a'r ymatebion/esboniadau a roddwyd yn Atodiad 6 o'r adroddiad ymgynghori hwn. Eglurodd cynrychiolwyr y Cyngor y byddai'r Awdurdod yn ceisio

cefnogi'r ysgol yn ystod y broses drosglwyddo wrth i'r adeilad newydd ddod yn ei flaen. Ni fydd penseiri ar gyfer dyluniad yr ysgol yn cael eu penodi tan ar ôl i'r broses ymgynghori ddod i ben ac o ganlyniad nid oes gennym ddyluniad eto. Eglurodd cynrychiolwyr y Cyngor fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn amcanu at osod mapiau o ardaloedd daearyddol ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg ar y wefan gorfforaethol fel mater o flaenoriaeth.

## *Crynodeb o'r sylwadau ysgrifenedig*

Cafwyd un eitem o ohebiaeth uniongyrchol ac un ffurflen ymateb wedi'i chwblhau yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad. Gweler Atodiad 7 o'r adroddiad ymgynghori hwn ar gyfer manylion ac ymatebion/esboniadau.

Fe anfonwyd ymatebion at anfonwyr yr eitemau o ohebiaeth yn diolch iddynt am eu sylwadau ac yn dweud y byddai eu sylwadau'n cael eu cymryd i ystyriaeth mewn unrhyw adroddiad a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cabinet.

### Crynodeb o ymatebion i'r arolwg ar-lein

Ar y cyfan, fe gwblhaodd 46 o ymatebwyr yr holiadur ar-lein. Mewn perthynas â'r cwestiwn pa un a oeddent yn cefnogi'r cynnig, fe ymatebodd 21 gan ddweud 'Ydw' a 25 gan ddweud 'Nac ydw'. Gweler Atodiad 8 o'r adroddiad ymgynghori hwn ar gyfer y manylion ac ymatebion/esboniadau'r Awdurdod i'r materion a godwyd.

## *Barn Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru*

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig. Gweler Atodiad 9 o'r adroddiad ymgynghori hwn ar gyfer y manylion llawn. Mae Crynodeb/Casgliad Estyn fel a ganlyn:

"Mae'r cynnig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn un i ddirwyn Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon y Felin i ben ac agor ysgol newydd a hynny o 1 Medi 2023. Mae hefyd yn cynnig ehangu Ysgol Y Ferch O'r Sgêr a hynny o 2 Medi 2024. Mae'r Cyngor yn nodi sail resymegol glir ar gyfer ei gynnig. Mae'n golygu cael gwared ar oddeutu £1.5 o waith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni rhwng y tair ysgol, sydd mewn cyflwr gwael yn ei dyb ef, a hwythau'n dangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel a fwriadwyd. Mae'r cynnig hefyd yn mynd i'r afael â'r angen am leoedd cyfrwng Cymraeg ac i hybu twf y Gymraeg.

Mae'r cynigydd wedi ymgynghori'n eang, gan gynnwys â phlant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr, staff yr ysgolion, ystod eang o bartïon â buddiant ac aelodau'r cyhoedd. Barn Estyn yw ei bod yn debygol y bydd y cynnig o leiaf yn cynnal y ddarpariaeth addysg ar gyfer disgyblion yn yr ardal."

## *Asesiad o'r Effaith*

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei gwblhau fel rhan o'r cam ymgynghori ac fe'i cyhoeddwyd fel rhan o'r ddogfen ymgynghori. Daeth yr asesiad i'r casgliad bod y cynnig yn annhebygol o gael effaith anghymesur ar unrhyw grŵp gwarchodedig. A ninnau wedi adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r casgliad yn dal i fod yn ddilys.

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi cael ei gwblhau fel rhan o'r cam ymgynghori ac fe'i cyhoeddwyd fel rhan o'r ddogfen ymgynghori. Daeth i'r casgliad y bydd nifer disgwyliedig y rhai sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yn cynyddu o ganlyniad i'r cynnig, gan felly gefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yr Awdurdod, hybu'r Gymraeg a chynyddu niferoedd y plant mewn ysgolion meithrin nas cynhelir sy'n trosglwyddo i ysgol gynradd Gymraeg. A ninnau wedi adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r casgliad yn dal i fod yn ddilys.

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi cael ei gwblhau fel rhan o'r cam ymgynghori ac fe'i cyhoeddwyd fel rhan o'r ddogfen ymgynghori. Daeth i'r casgliad bod y safleoedd ar gyfer yr ysgolion newydd arfaethedig lai na 0.3 milltir i ffwrdd o safleoedd presennol yr ysgolion. Felly ni ddisgwylir bod potensial sylweddol ar gyfer effaith negyddol ar y gymuned. Fodd bynnag, mae posibilrwydd y gall fod effaith gadarnhaol ar gydlyniant cymunedol pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, gan y byddai dysgwyr yn mynychu adeiladau ysgol newydd mwy a fydd yn ymgorffori cyfleusterau cymunedol pwrpasol. A ninnau wedi adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r casgliad yn dal i fod yn ddilys.

Rhoddwyd ystyriaeth i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth lunio'r cynnig (gweler Atodiad 10).

## *Goblygiadau Ariannol*

Bydd costau'r ymgynghoriad yn cael eu talu o adnoddau presennol.
Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen ac yn cael ei roi ar waith, yna byddai cost yr ysgolion newydd yn cael ei chyllido trwy gost flynyddol i'r gyllideb refeniw, dros gyfnod o 25 mlynedd, y bydd angen ei chynnwys yn y SATC fel pwysau cyllidebol. Mae'r amcangyfrifon cynnar yn dynodi y gallai hyn fod oddeutu £500k y flwyddyn, ond bydd hyn yn cael ei bennu wrth i'r cynllun symud yn ei flaen. Mae'r gost yn seiliedig ar gyfradd ymyrryd Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau Model Buddsoddi Cydfuddiannol o 81%, gyda'r Awdurdod yn cyllido 19% o'r costau blynyddol, a hefyd 35% o unrhyw fuddsoddiad cyfalaf rhag blaen ar gyfer TGCh a dodrefn ac offer.
Byddai costau rhedeg yr ysgolion newydd yn cael eu cyllido o fewn Cyllidebau Dirprwyedig yr Ysgolion fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae'n rhy gynnar i ddweud a fydd arbedion effeithlonrwydd neu gostau ychwanegol yn deillio o'r ysgolion newydd arfaethedig, a bydd adroddiadau i'r Cabinet yn y dyfodol yn amlinellu'r goblygiadau ariannol, wrth iddynt ddod yn hysbys, mewn mwy o fanylder.

## *Y broses statudol ar gyfer penderfynu ynghylch y cynigion*

- Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amserlen dros dro:

Cyhoeddi Adroddiad Ymgynghori Cymeradwy ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gyda chopïau caled ar gael ar gais (12 Ebrill 2021).

Os bydd yn cael ei gytuno gan Gabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, bydd hysbysiad cyhoeddus yn cael ei gyhoeddi a bydd cyfnod o 28 diwrnod i gyflwyno unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig yn ysgrifenedig (26 Ebrill 2021).

Os na cheir unrhyw wrthwynebiadau, gall y Cabinet benderfynu a ddylid bwrw ymlaen ai peidio. Os ceir unrhyw wrthwynebiadau, bydd Adroddiad ar y Gwrthwynebiadau'n cael ei anfon ymlaen at y Cabinet i gael ei ystyried ganddo ac er mwyn iddo wneud penderfyniad wedi hynny. Wedyn bydd yr adroddiad cymeradwy'n cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a bydd copïau caled o'r adroddiad ar gael ar gais (9 Mehefin 2021).

Rhoi'r cynnig ar waith (1 Medi 2023 Cyfrwng Saesneg; 2 Medi 2024 Ysgol Y Ferch O'r Sgêr).

Argymhellion

Argymhellir felly bod y Cabinet:

yn nodi canlyniad yr ymgynghoriad â phartïon â buddiant fel a nodir yn yr adroddiad ymgynghori sydd ynghlwm a'r atodiadau wrtho;
yn cymeradwyo'r adroddiad ymgynghori ar gyfer ei gyhoeddi;
yn awdurdodi cyhoeddi'r hysbysiad cyhoeddus ar y cynnig; ac
yn rhoi cymeradwyaeth i roi'r cynnig ar waith, os na fydd unrhyw wrthwynebiadau ar ddiwedd cyfnod yr hysbysiad cyhoeddus.
*Mae Copïau Caled o'r adroddiad hwn ar gael ar gais.*
*Mae gweithdrefnau galw-i-mewn CBSP yn berthnasol i'r adroddiad hwn*

**Swyddog Cyswllt:** Y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd (Uned Gymorth y Gyfarwyddiaeth)
**Ffôn:** (01656) 643 643

**E-bost:** edsu@bridgend.gov.uk

**Cyfeiriad Post:** Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar OgwrY Swyddfeydd DinesigStryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB

**Atodiad 1**

## Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr – Cyfarfod Ymgynghori dros TEAMS â Chyngor Ysgol Gynradd Corneli
## 11 Chwefror 2021

Yn bresennol: CL (Rheolwr Prosiect), XX, XX, XX, XX (Athrawon)

Y Cyngor Ysgol: XX, XX, XX, XX, XX, XX, XX, XX, XX, XX

### Cyflwyniad

Roedd fersiwn o'r ddogfen ymgynghori a oedd yn 'addas i blant' wedi cael ei dosbarthu i'r disgyblion cyn y cyfarfod. Fe wnaeth CL gyflwyno'r ddogfen grynhoi ar y sgrin ac yna rhoddodd CL drosolwg gan egluro'r rhesymau dros gynnal yr ymgynghoriad:

Yr Awdurdod Lleol (ALl) sy'n gyfrifol am gynllunio lleoedd mewn ysgolion a sicrhau bod digon o leoedd i'r holl blant yn y fwrdeistref sirol. Mae cynnig wedi cael ei gyflwyno gerbron i sicrhau bod digon o fynediad at ysgolion yn ardal Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr trwy adeiladu dwy ysgol newydd sbon.

Mae'r cynnig yn nodi sut y gellid sefydlu ysgol cyfrwng Saesneg newydd (i ddisodli Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon Y Felin) ym Mhlas Morlais trwy ymrwymo i gytundeb gyda pherchennog presennol y safle. Mae'r cynnig hefyd yn nodi sut y gallai Ysgol Y Ferch O'r Sgêr ddefnyddio rhan o'r safle a feddiannir gan Ysgol Gynradd Corneli ar hyn o bryd i adeiladu ysgol fwy a chynyddu ei maint i ddod yn ysgol cyfrwng Cymraeg â dwy ffrwd gydag uned feithrin cyfrwng Cymraeg â 60 o leoedd.

Diben y cyfarfod ymgynghori hwn yw cael barn disgyblion. Croesewir pob barn hyd at 7 Mawrth 2021. Os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig yna bydd hysbysiad cyhoeddus yn cael ei gyhoeddi a bydd y cyhoedd yn cael amser i wrthwynebu.

**Barn a chwestiynau'r disgyblion**
Gofynnodd XX a fyddai safleoedd arfaethedig yr ysgol newydd yn ddigon mawr. Dywedodd CL y byddai'r safleoedd arfaethedig yn ddigon mawr (mae ymarfer cynllunio 'prawf-ffitio' wedi cael ei gwblhau i sicrhau hyn).

Gofynnodd XX a fyddai disgyblion yn gallu defnyddio ardal randir. Dywedodd CL, er nad oedd gwaith dylunio manwl wedi cael ei wneud eto, ei bod yn debygol y gallai ardal goedwig/ardal gynefin/ardal randir gael ei chynnwys yn y dyluniad. Dywedodd CL y byddai'n dychwelyd at y Cyngor Ysgol ar adeg y gwaith dylunio manwl (gan y byddai'n dymuno cynnwys disgyblion yn y broses ddylunio). Eglurodd CL fod ysgolion a fu'n rhan o brosiectau blaenorol wedi trosglwyddo planhigion a choed drosodd o'u hen safleoedd i'r rhai newydd.
Cwestiynodd XX a fydd gan yr ysgol newydd arfaethedig fwy o ddisgyblion yn yr ystafelloedd dosbarth. Dywedodd CL na fyddai mwy o ddisgyblion yn yr ystafelloedd dosbarth. Byddai gan yr ysgolion newydd arfaethedig nifer fwy o ddosbarthiadau h.y.

dwy ffrwd ym mhob grŵp blwyddyn, ond ni fyddai capasiti'r ystafelloedd dosbarth unigol yn fwy (byddai mwy ohonynt, dyna'r oll).

Gofynnodd XX a fyddai offer TG newydd yn cael eu cynnig yn yr ysgol newydd. Dywedodd CL y byddai cyllideb yn cael ei dyrannu ar gyfer offer TG newydd.

Gofynnodd XX a fyddai neuadd chwaraeon yn yr ysgol newydd arfaethedig. Dywedodd CL y byddai, ac yn wir y byddai dwy ohonynt mwy na thebyg.

Gofynnodd XX sawl buarth fyddai'n cael eu darparu yn yr ysgol newydd. Dywedodd CL, er nad oedd gwaith dylunio manwl wedi cael ei wneud eto, y byddai digon o le awyr agored yn cael ei ddarparu gan gynnwys lle cylchdroi, meysydd chwarae (cae pob tywydd o bosibl), cyrtiau chwaraeon, ardaloedd chwarae meddal, ardaloedd chwarae caled ac ardaloedd cynefin.

Gofynnodd XX a allai Corneli Utd ddefnyddio cae pob tywydd yr ysgol pe bai un yn cael ei ddarparu yn yr ysgol newydd. Dywedodd CL y byddent, gyda chaniatâd yr ysgol.

Dywedodd XX yr hoffai weld y pethau canlynol yn cael eu darparu yn yr ysgol newydd arfaethedig: ardal chwarae fawr, ffrâm ddringo, biniau ailgylchu, ffynhonnau dŵr ac ardal bywyd gwyllt yn yr awyr agored.

Gofynnodd XX pryd fyddai'r ysgol newydd yn barod ar gyfer disgyblion pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen. Dywedodd CL y rhagwelir ar hyn o bryd y byddai'r adeilad newydd yn barod i'r ysgol drosglwyddo iddo ym mis Medi 2023.

**Pleidlais ar y Cynnig**
Gofynnodd CL am bleidlais i ganfod pa un a oedd y disgyblion yn teimlo bod y cynnig yn syniad da ynteu'n syniad gwael ar y cyfan. Roedd pob un o'r 10 disgybl a oedd yn bresennol yn cytuno'i fod yn syniad da.

Hysbysodd CL, os oedd gan unrhyw un gwestiynau neu sylwadau neu awgrymiadau ar ôl y cyfarfod ymgynghori hwn, y gallent gwblhau'r ffurflen ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad ond mai'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cwestiynau a sylwadau yw 7 Mawrth 2021.

**Atodiad 2**

## Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr – Cyfarfod Ymgynghori dros TEAMS â Chyngor Ysgol Gynradd Afon Y Felin
## 11 Chwefror 2021

Yn bresennol: CL (Rheolwr Prosiect), XX (Athro/Athrawes)

Y Cyngor Ysgol: XX, XX, XX, XX, XX, XX

**Cyflwyniad**

Roedd fersiwn o'r ddogfen ymgynghori a oedd yn 'addas i blant' wedi cael ei dosbarthu i'r disgyblion cyn y cyfarfod. Fe wnaeth CL gyflwyno'r ddogfen grynhoi ar y

sgrin ac yna rhoddodd CL drosolwg gan egluro'r rhesymau dros gynnal yr ymgynghoriad:

Yr Awdurdod Lleol (ALl) sy'n gyfrifol am gynllunio lleoedd mewn ysgolion a sicrhau bod digon o leoedd i'r holl blant yn y fwrdeistref sirol. Mae cynnig wedi cael ei gyflwyno gerbron i sicrhau bod digon o fynediad at ysgolion yn ardal Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr trwy adeiladu dwy ysgol newydd sbon.

Mae'r cynnig yn nodi sut y gellid sefydlu ysgol cyfrwng Saesneg newydd (i ddisodli Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon Y Felin) ym Mhlas Morlais trwy ymrwymo i gytundeb gyda pherchennog presennol y safle. Mae'r cynnig hefyd yn nodi sut y gallai Ysgol Y Ferch O'r Sgêr ddefnyddio rhan o'r safle a feddiannir gan Ysgol Gynradd Corneli ar hyn o bryd i adeiladu ysgol fwy a chynyddu ei maint i ddod yn ysgol cyfrwng Cymraeg â dwy ffrwd gydag uned feithrin cyfrwng Cymraeg â 60 o leoedd.

Diben y cyfarfod ymgynghori hwn yw cael barn disgyblion. Croesewir pob barn hyd at 7 Mawrth 2021. Os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig yna bydd hysbysiad cyhoeddus yn cael ei gyhoeddi a bydd y cyhoedd yn cael amser i wrthwynebu.

**Barn a chwestiynau'r disgyblion**
Gofynnodd XX a fyddai gan yr ysgol newydd arfaethedig ardal chwarae well nag sydd gan yr ysgol bresennol. Eglurodd CL, er nad oedd gwaith dylunio manwl wedi cael ei wneud eto, y byddai digon o le awyr agored yn cael ei ddarparu gan gynnwys lle cylchdroi, meysydd chwarae (cae pob tywydd o bosibl), cyrtiau chwaraeon, ardaloedd chwarae meddal, ardaloedd chwarae caled (buarth) ac ardaloedd cynefin. Dywedodd CL, pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, y byddai cyfarfodydd pellach gyda'r Cyngor Ysgol yn cael eu trefnu er mwyn i ddisgyblion allu rhoi mewnbwn i'r broses ddylunio.

Dywedodd XX nad yw ei hysgol hi mor hen ag Ysgol Gynradd Corneli. Eglurodd CL fod pob un o'r tair ysgol sy'n rhan o'r cynnig yn weddol hen a bod arnynt angen gwariant sylweddol i ymdrin ag ôl-groniad o waith cynnal a chadw.

Gofynnodd XX beth sy'n digwydd os yw disgyblion yn teimlo nad oes arnynt eisiau symud. Eglurodd CL y dylent ymateb i'r ymgynghoriad gan egluro hynny (diben yr ymgynghoriad yw gwrando ar farn pobl ynglŷn â'r cais).

Gofynnodd XX pryd fyddai'r ysgolion newydd arfaethedig yn barod. Eglurodd CL y rhagwelir ar hyn o bryd y byddai'r ysgol cyfrwng Saesneg wedi'i chwblhau ym mis Medi 2023 ac y byddai'r ysgol cyfrwng Cymraeg wedi'i chwblhau ym mis Medi 2024.

Holodd XX a fydd clwb pêl-fasged, rygbi, pêl-droed a phêl-rwyd. Eglurodd CL y byddai gan yr ysgolion newydd arfaethedig feysydd chwarae a chyrtiau chwaraeon a allai gael eu defnyddio gan glybiau ar gyfer gweithgareddau o'r fath.

Gofynnodd XX pryd fyddai hen adeilad Ysgol Gynradd Afon Y Felin yn cael ei fwrw i lawr. Eglurodd CL, pe bai'r cynnig yn symud yn ei flaen, y byddai'r hen ysgol yn cael ei dymchwel rywbryd ar ôl y dyddiad y bydd yr ysgol newydd ar gael (felly rywbryd ar ôl mis Medi 2023).

Gofynnodd XX a fyddai tir hen safle'r ysgol yn cael ei ddefnyddio i godi tai. Dywedodd CL fod hyn yn debygol.

Gofynnodd XX a fyddai gan y disgyblion athrawon newydd. Eglurodd CL ei bod yn debygol y byddai'r holl athrawon presennol (o Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon y Felin) yn trosglwyddo i'r ysgolion newydd, gan olygu na fyddai disgyblion yn cael athrawon newydd o anghenraid.

Gofynnodd XX pa mor fawr fyddai'r ysgol cyfrwng Saesneg newydd. Eglurodd CL mai ysgol ddwy ffrwd (dau ddosbarth ymhob grŵp blwyddyn) fyddai. Byddai hyn yn gwneud cyfanswm o 420 o ddisgyblion a disgyblion meithrin ar ben hynny. Byddai gan yr ysgolion newydd arfaethedig nifer fwy o ddosbarthiadau, h.y. dwy ffrwd ym mhob grŵp blwyddyn, ond ni fyddai capasiti'r ystafelloedd dosbarth unigol yn fwy (byddai mwy ohonynt, dyna'r oll).

Dywedodd XX fod ei mam wedi dewis ei hanfon i Afon Y Felin am ei bod yn ysgol fach. Eglurodd CL y byddai'r Awdurdod yn dymuno cynnal yr 'ethos' ysgol fach presennol yn yr ysgol newydd. Fodd bynnag, os oes gan bobl bryderon o hyd, dylent ymateb i'r ymgynghoriad gan ddweud beth ydynt.

Gofynnodd XX a fyddai'r ysgol newydd arfaethedig yn edrych fel Nant Gwyn. Eglurodd CL y byddai mwy na thebyg yn edrych fel Ysgol Gynradd Pencoed a godwyd yn ddiweddar. Dywedodd CL, pe byddid yn bwrw ymlaen â'r cynnig, a bod y cyfyngiadau symud yn caniatáu, y byddai'n trefnu ymweliad er mwyn i'r disgyblion gael gweld adeilad newydd Ysgol Gynradd Pencoed. Wedyn fe allai'r disgyblion weld sut y mae pethau yno a rhoi mewnbwn i'r broses ddylunio ar gyfer eu hysgol newydd.

Gofynnodd XX pryd fyddai cyfarfod nesaf y Cyngor Ysgol i drafod y cynnig yn cael ei gynnal. Dywedodd CL y gallai fod mor fuan â phosibl ar ôl i'r broses ymgynghori ddod i ben ac ar ôl i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio (felly tuag at ddiwedd mis Mehefin 2021).

**Pleidlais ar y Cynnig**
Gofynnodd CL am bleidlais i ganfod pa un a oedd y disgyblion yn teimlo bod y cynnig yn syniad da ynteu'n syniad gwael ar y cyfan. Roedd pob un o'r chwe disgybl a oedd yn bresennol yn cytuno eu bod yn ansicr, ar hyn o bryd, pa un a yw'r cynnig yn syniad da ynteu'n syniad gwael.

Hysbysodd CL, os oedd gan unrhyw un gwestiynau neu sylwadau neu awgrymiadau ar ôl y cyfarfod ymgynghori hwn, y gallent gwblhau'r ffurflen ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad ond mai'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cwestiynau a sylwadau yw 7 Mawrth 2021.

**Atodiad 3**

## Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr – Cyfarfod Ymgynghori dros TEAMS â Chyngor Ysgol Y Ferch O'r Sgêr 11 Chwefror 2021

Yn bresennol: C L (Rheolwr Prosiect), XX, XX, XX (Athrawon),

Y Cyngor Ysgol: XX, XX, XX

**Cyflwyniad**

Roedd fersiwn o'r ddogfen ymgynghori a oedd yn 'addas i blant' wedi cael ei dosbarthu i'r disgyblion cyn y cyfarfod. Fe wnaeth CL gyflwyno'r ddogfen grynhoi ar y sgrîn ac yna rhoddodd CL drosolwg gan egluro'r rhesymau dros gynnal yr ymgynghoriad:

Yr Awdurdod Lleol (ALl) sy'n gyfrifol am gynllunio lleoedd mewn ysgolion a sicrhau bod digon o leoedd i'r holl blant yn y fwrdeistref sirol. Mae cynnig wedi cael ei gyflwyno gerbron i sicrhau bod digon o fynediad at ysgolion yn ardal Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr trwy adeiladu dwy ysgol newydd sbon.

Mae'r cynnig yn nodi sut y gellid sefydlu ysgol cyfrwng Saesneg newydd (i ddisodli Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon Y Felin) ym Mhlas Morlais trwy ymrwymo i gytundeb gyda pherchennog presennol y safle. Mae'r cynnig hefyd yn nodi sut y gallai Ysgol Y Ferch O'r Sgêr ddefnyddio rhan o'r safle a feddiannir gan Ysgol Gynradd Corneli ar hyn o bryd i adeiladu ysgol fwy a chynyddu ei maint i ddod yn ysgol cyfrwng Cymraeg â dwy ffrwd gydag uned feithrin cyfrwng Cymraeg â 60 o leoedd.

Diben y cyfarfod ymgynghori hwn yw cael barn disgyblion. Croesewir pob barn hyd at 7 Mawrth 2021. Os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig yna bydd hysbysiad cyhoeddus yn cael ei gyhoeddi a bydd y cyhoedd yn cael amser i wrthwynebu.

**Barn a chwestiynau'r disgyblion**

Gofynnodd XX a fyddai gan yr ysgol newydd ardal ar gyfer chwarae pêl-droed sy'n fwy nag sydd gan yr ysgol ar hyn o bryd fel bod mwy o bobl yn gallu chwarae. Dywedodd CL y byddai gan yr ysgol newydd, fwy ardaloedd chwarae awyr agored mwy.

Gofynnodd XX a fyddai disgyblion yn gallu defnyddio ardal goedwig. Dywedodd CL, er nad oedd gwaith dylunio manwl wedi cael ei wneud eto, ei bod yn debygol y bydd ardal goedwig/ardal gynefin wedi'i chynnwys yn y dyluniad. Dywedodd CL y bydd yn dychwelyd at y Cyngor Ysgol ar adeg y gwaith dylunio manwl (gan y byddai'n dymuno cynnwys disgyblion yn y broses ddylunio).

Holodd XX a fydd gan yr ysgol newydd arfaethedig ystafell gelf. Dywedodd CL nad oedd gwaith dylunio manwl wedi cael ei wneud eto. Fodd bynnag, dywedodd CL y bydd yn dychwelyd at y Cyngor Ysgol ar adeg y gwaith dylunio manwl (gan y byddai'n dymuno cynnwys disgyblion yn y broses ddylunio) a phe bai'r disgyblion yn gofyn am ystafell gelf bwrpasol, byddai'n anfon y cais ymlaen at y penseiri.

Dywedodd XX y byddai pryderon ynghylch traffig a gofynnodd ble fyddai'r mynediad ar gyfer yr ysgol. Dywedodd CL y byddai mynedfeydd a mannau gollwng yn cael eu pennu ar adeg y gwaith dylunio manwl, ac y byddent yn ddiogel ac yn cael eu goleuo gan Asesiad Trafnidiaeth llawn (Mae Asesiadau Trafnidiaeth yn ystyried effaith y datblygiad ar yr holl ddulliau cludiant, yn nodi cynigion i leihau i'r eithaf effaith y datblygiad ar y rhwydwaith trafnidiaeth ac yn hyrwyddo mesurau i hybu cludiant sy'n gynaliadwy ac yn eco-gyfeillgar).

Dywedodd XX ei fod yn meddwl bod cael ysgol newydd yn syniad da am bod adeilad presennol yr ysgol yn cwympo'n ddarnau a bod buarthau'n suddo.

**Pleidlais ar y Cynnig**
Gofynnodd CL am bleidlais i ganfod pa un a oedd y disgyblion yn teimlo bod y cynnig yn syniad da ynteu'n syniad gwael ar y cyfan. Roedd pob un o'r tri disgybl a oedd yn bresennol yn cytuno ei fod yn syniad da.

Hysbysodd CL, os oedd gan unrhyw un gwestiynau neu sylwadau neu awgrymiadau ar ôl y cyfarfod ymgynghori hwn, y gallent gwblhau'r ffurflen ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad ond mai'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cwestiynau a sylwadau yw 7 Mawrth 2021.

**Atodiad 4**

**Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr – Cyfarfod Ymgynghori dros TEAMS â Chorff Llywodraethu a Staff Ysgol Gynradd Corneli**
**1 Mawrth 2021**

Yn bresennol: Y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Ymgynghorydd, Adnoddau Dynol
Rheolwr y Rhaglen Ysgolion
Rheolwr Prosiect
Pennaeth
Aelodau o staff yr ysgol
Aelodau o'r corff llywodraethu

Fe wnaeth Lindsay Harvey gyflwyno'r sesiwn ymgynghori a nodi diben y cyfarfod, natur a phroses yr ymgynghoriad ac amlinellu'r cynnig.

| **Cwestiynau/Materion** | **Ateb/Sylwadau** |
|---|---|
| Byddai'n dda dod ynghyd gydag Ysgol Gynradd Afon Y Felin ar y cyfle cynharaf er mwyn dod i'w hadnabod. | Yn amlwg fe gyfyngir ar ymweliadau ar hyn o bryd oherwydd COVID, ond byddwn yn trefnu ymweliadau cyn gynted ag sy'n ymarferol. Mae ysgolion 'Band A' megis Ysgol Gynradd Pen-coed, Ysgol Gynradd Brynmenyn ac Ysgol Gynradd Gymraeg Calon Y Cymoedd wedi bod yn drawsnewidiol a byddai ymweliadau'n fuddiol tu hwnt. |

| | |
|---|---|
| Ar ba bwynt fyddai'r strwythur staffio'n cael ei bennu?<br>Cytunir nad yw'r ysgol mewn cyflwr da a bod staff wedi gorfod gweithio'n galed iawn i gyflawni safonau rhagorol yr ysgol. | Unwaith y bydd y broses ymgynghori wedi dod i ben ac y bydd penderfyniad wedi'i wneud ynglŷn â bwrw ymlaen â'r cynllun neu beidio byddem yn dechrau ymgynghori â'r ysgolion ynghylch y strwythur cyn gynted â phosibl.<br><br>Bydd yr Adran Adnoddau Dynol yn rhoi cymorth os oes gan unrhyw un bryderon ynghylch y newid arfaethedig. Gallwch anfon unrhyw gwestiynau a all fod gennych yn uniongyrchol at yr Adran Adnoddau Dynol os ydych yn dymuno.<br><br>Mae Corneli wedi gwneud gwaith gwych gyda hen adeilad. Mae croeso i chi gysylltu â ni yn uniongyrchol os oes angen unrhyw eglurhad pellach arnoch. |

**Atodiad 5**

**Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr – Cyfarfod Ymgynghori dros TEAMS â Chorff Llywodraethu a Staff Ysgol Gynradd Afon y Felin 1 Mawrth 2021**

Yn bresennol: Y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Ymgynghorydd, Adnoddau Dynol
Rheolwr y Rhaglen Ysgolion
Rheolwr Prosiect
Pennaeth
Aelodau o staff yr ysgol
Aelodau o'r corff llywodraethu

Fe wnaeth Lindsay Harvey gyflwyno'r sesiwn ymgynghori a nodi diben y cyfarfod, natur a phroses yr ymgynghoriad ac amlinellu'r cynnig.

| **Cwestiynau/Materion** | **Ateb/Sylwadau** |
|---|---|
| Beth fydd yn digwydd os bydd oedi gyda'r rhaglen adeiladu?<br>Mae gan yr ysgol staff gwych ac mae pryderon ynghylch swyddi.<br>A fyddai contractau Swyddogion Cymorth Dysgu'n aros fel y maent?<br>A yw'n wir y byddai contractau cyfredol gydag Afon Y Felin yn dod i ben ac y byddid yn ymrwymo i gontractau newydd gyda'r ysgol newydd? | Gall y dyddiad dod i rym a nodir yn y ddogfen ymgynghori gael ei addasu os oes angen. Er y byddai'r corff llywodraethu cysgodol yn cael ei sefydlu unwaith y byddai'r ymgynghoriad drosodd ac y byddai'n gweithio ar strwythurau staffio newydd, ni fyddai'r strwythur newydd yn dod i rym tan y dyddiad dod i rym. Mae gwaith adeiladu'n digwydd yn awr (h.y. yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud) felly ni fydd COVID yn achosi oedi, gobeithio. |

A fyddai'n rhaid i staff ymgeisio am swyddi yn yr ysgol newydd?
Roedd cyfarfod y Cyngor Ysgol yn dda iawn; roedd un sylw a wnaeth fy nharo i'n ymwneud â'r ffaith bod rhai rhieni wedi dewis yr ysgol am ei bod yn fach.

Mae gan yr ysgol bresennol nifer o wobrau. Beth fydd yn digwydd i'r rhain os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen?
Mae 'pod' Dechrau'n Deg ar safle presennol Afon Y Felin.
Mae Ysgol Gynradd Afon Y Felin yn uchel ei bri yn y gymuned ac fe hoffem deimlo y gall hyn barhau; fe hoffem weld cydweithio'n digwydd rhwng yr ysgolion yr effeithir arnynt cyn eu cau. Nid oedd safonau rhagorol Ysgol Gynradd Afon y Felin yn dod drwodd yn y ddogfen ymgynghori. Pryd fyddwn ni'n gallu gweld y dyluniad? Fe hoffwn i roi mewnbwn iddo.

Mae Consortiwm Canol De Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn meddwl bod Afon Y Felin yn ysgol ragorol. Nid ydym am effeithio ar hynny. Byddai ysgol fwy a chyllidebau mwy'n golygu mwy o gyfleoedd ar gyfer staff, gobeithio.

Byddem yn ymgynghori ynghylch y strwythur yn y dyfodol ond nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw swyddi'n cael eu colli.

Cyfrifoldeb y corff llywodraethu fyddai penderfynu hynny yn y pen draw ond byddem yn gobeithio na fyddai unrhyw newidiadau.

Mae arnom eisiau cadw 'wynebau cyfarwydd' ar gyfer y disgyblion er mwyn lleihau i'r eithaf unrhyw effaith y bydd y cynnig yn ei chael arnynt hwy.

Ydy.
Er mai penderfyniad i'r Corff Llywodraethu yw staffio yn y pen draw, ni fyddai'r Awdurdod yn dymuno gweld newidiadau gan y teimlir y byddai cadw 'wynebau cyfarwydd' o fudd i'r disgyblion. Byddai ymarfer 'paru a slotio' yn cael ei ddefnyddio i benodi o'r gronfa bresennol o staff i'r swyddi yn yr ysgol newydd (gyda cheisiadau'n cael eu gwahodd o'r gronfa bresennol o staff ar gyfer unrhyw swyddi cwbl newydd neu wahanol).

Byddai cyfleoedd newydd a gynigir gan ysgol newydd, fwy yn wych. Byddem yn ceisio trosglwyddo'r 'ethos' ysgol fach presennol i'r ysgol newydd.

Rydym yn trosglwyddo eitemau etifeddol i'r safle newydd, felly gallai tlysau ac ati gael eu trosglwyddo a'u harddangos ar y safle newydd. Byddwn yn ymchwilio i'r posibilrwydd o drosglwyddo/cynnal unrhyw achrediadau presennol ac yn rhoi gwybod i chi.

Byddai gan y ddau adeilad ysgol a fyddai'n cael eu creu o'r newydd gyfleusterau cymunedol integredig pwrpasol. Rhagwelir ar hyn y bryd y byddai'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg bresennol yn Ysgol Gynradd Afon y Felin yn trosglwyddo i adeilad y Ganolfan Blant Integredig pe byddid yn bwrw ymlaen â'r cynnig. Byddwn yn meddwl

| | |
|---|---|
| | mewn mwy o fanylder ynghylch sut i leddfu unrhyw faterion o ran trosglwyddo cyfleusterau ‘pod’ (e.e. trwy drosglwyddo eitemau etifeddol) pe bai’r cynnig yn mynd yn ei flaen.<br><br>Mae staff Ysgol Gynradd Corneli wedi dweud union yr un peth. Byddem yn trefnu cyfarfodydd cydweithio rhwng yr ysgolion pe bai’r cynnig yn mynd yn ei flaen. Hefyd, mae gennym wersi a ddysgwyd o’n grŵp Penaethiaid Band A. Byddem yn dod â chi ynghyd gyda hwy er mwyn rhannu eu profiadau a’u gwybodaeth o symud i ysgol newydd. Byddem hefyd yn trefnu eich bod yn ymweld â rhai o’n hysgolion Band A cyn gynted ag y mae caniatâd i wneud.<br><br>Mae’r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi bod rhaid i ni ddefnyddio’r adroddiad arolygu diweddaraf gan Estyn yn y ddogfen. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ymwybodol o’r safonau da presennol yn yr ysgol.<br><br>Mae’r cynllun yn gynllun Model Buddsoddi Cydfuddiannol â chyllid refeniw a chan hynny, ni fydd cynlluniau dylunio manwl yn cael eu llunio gan WEPCo (h.y. y cwmni cydfenter a sefydlir rhwng Partner Cyflawni yn y Sector Preifat ac is-gwmni i Fanc Datblygu Cymru) tan ar ôl i gais Cam 1 y Model Buddsoddi Cydfuddiannol wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Pe bai’r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â’r cynnig ar ôl i’r ymgynghoriad ddod i ben, rhagwelir y byddai cais Cam 1 yn cael ei gyflwyno ym mis Mehefin 2021.<br>O ganlyniad, nid oes dyluniadau manwl ar gyfer yr ysgolion yn bodoli ar hyn o bryd. Yr unig gynlluniau sy’n bodoli ar hyn o bryd yw cynlluniau terfyn llinell goch a datblygu fesul cam a ddefnyddir gan reolwyr prosiect Llywodraeth Cymru i ‘brawf-ffitio’ yr ardaloedd a argymhellir yn y Bwletin Adeiladu ar gyfer ysgolion yn erbyn y tir sydd ar gael ar y safleoedd. Gofynnir i’r ysgolion roi mewnbwn i’r dyluniad ar yr adeg briodol. |
| A fyddai’r Meithrin yn y Ganolfan Blant Integredig yn parhau? | Byddai. |
| Beth yw’r trefniadau ar gyfer parcio a gollwng teithwyr? | Byddai mynedfeydd a mannau gollwng yn cael eu pennu ar adeg y gwaith dylunio manwl, a byddent yn ddiogel ac yn cael eu goleuo gan |

| | |
|---|---|
| | Asesiad Trafnidiaeth Llawn (Mae Asesiadau Trafnidiaeth yn ystyried effaith y datblygiad ar yr holl ddulliau cludiant, yn nodi cynigion i leihau i'r eithaf effaith y datblygiad ar y rhwydwaith trafnidiaeth ac yn hyrwyddo mesurau i hybu cludiant sy'n gynaliadwy ac yn eco-gyfeillgar).<br><br>Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, mae croeso i chi gwblhau'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad neu gysylltu'n uniongyrchol â swyddogion. |

**Atodiad 6**

**Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr – Cyfarfod Ymgynghori dros TEAMS â Chorff Llywodraethu a Staff Ysgol Y Ferch O'r Sgêr**
**25 Chwefror 2021**

Yn bresennol: Y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Uwch Ymgynghorydd, Adnoddau Dynol
Rheolwr y Rhaglen Ysgolion
Rheolwr Prosiect
Pennaeth
Aelodau o staff yr ysgol
Aelodau o'r corff llywodraethu

Fe wnaeth Lindsay Harvey gyflwyno'r sesiwn ymgynghori a nodi diben y cyfarfod, natur a phroses yr ymgynghoriad ac amlinellu'r cynnig.

| **Cwestiynau/Materion** | **Ateb/Sylwadau** |
|---|---|
| | |

| | |
|---|---|
| Mae bod heb ddalgylch disgwyliedig ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gallu bod yn broblemus. | Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn bwriadu gosod mapiau o ddalgylchoedd ar y wefan gorfforaethol fel mater o flaenoriaeth. |
| A allwn ni helpu’r Awdurdod i roi cyhoeddusrwydd i’r cynllun hwn os bydd yn bwrw ymlaen â’r cynnig?<br><br>Bydd y Cyngor yn agor adeilad cyfrwng Saesneg newydd sgleiniog cyn yr adeilad cyfrwng Cymraeg o dan y cynnig. Rwy’n deall yr angen i ddatblygu’r safleoedd fesul cam, ond pan fod y Cyngor wedi dewis Corneli yn hytrach na Phorthcawl?<br><br>Pam nad oes Canolfan Adnoddau Dysgu’n cael ei chynnig ar gyfer yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd? | Gallwch. Fe wnaeth ymarfer manwl i Arfarnu’r Opsiynau bennu’r safleoedd arfaethedig fel y rhai a ffefrir. Yn y bôn, mae diffyg tir addas ym Mhorthcawl. Mae gan Ysgol Gynradd Corneli un yn barod ac mae’r galw amdani yn y dyfodol wedi cael ei gadarnhau gyda thîm Cymorth i Ddysgwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae cyllid ar gyfer darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yn cael ei roi i ysgolion ac mae’r cymorth yn digwydd mewn ystafelloedd ymyraethau presennol ac felly nid oes angen Canolfan Adnoddau Dysgu ychwanegol yn Ysgol Y Ferch O’r Sgêr ar hyn o bryd. |
| Bydd marchnata’r ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn hollbwysig os bydd yn mynd yn ei blaen. | Wedi’i nodi. |

Ydyn ni’n gwybod beth fydd ‘wynebwedd’ yr adeilad newydd?
Oni ddylem hysbysu’r penseiri ynghylch ein dymuniadau cyn gynted â phosibl?
Mae’n bwysig cynnwys llais y plant.
Rwy’n pryderu ynghylch y posibilrwydd o gyllideb ddiffygiol. A fydd yr ysgol yn cael ei chefnogi trwy’r broses o drosglwyddo?

Beth sydd ynddo i’r gymuned?
Rydym ni i gyd wedi cyffroi’n fawr. Beth fydd yn digwydd os bydd yr ochr Saesneg yn dweud na?

Byddai Estyn yn gwneud sylwadau ar faterion diogelu felly mae angen i ni fod yn gadarn o ran ffensys a gwahanu.

A fyddai’r ysgol yn elwa’n ariannol o’r defnydd o gyfleusterau gan y gymuned?

Ddim ar hyn o bryd. Nid ydym wedi cyrraedd cam y gwaith dylunio manwl eto. Pan gyrhaeddir cam y gwaith dylunio manwl, byddwn yn ceisio gweithio gyda chi a chwrdd â’ch dymuniadau os yn bosibl o fewn cyfyngiadau’r safle.

Ni fydd penseiri ar gyfer dyluniad yr ysgol yn cael eu penodi tan ar ôl i’r broses ymgynghori ddod i ben. Byddwn yn ymgysylltu â hwy ar y cyfle cynharaf.

Cytuno. Dyna pam ein bod eisoes wedi cwrdd â’r priod gynghorau ysgol i drafod y cynnig ac wedi egluro wrthynt y byddwn yn cynnal cyfarfodydd pellach gyda hwy, pe bai’r cynllun yn mynd yn ei flaen, er mwyn iddynt gael eu cynnwys yn y broses ddylunio.

Byddwn yn ymdrechu i gefnogi’r ysgol wrth i’r adeilad newydd ddod yn ei flaen.

Buddsoddiad sylweddol iawn. Rydym yn cynyddu i’r eithaf y defnydd gan y gymuned. Byddai’r cynllun yn darparu meysydd chwarae amlddefnydd, ystafelloedd a chyfleusterau cymunedol pwrpasol a chyswllt diwifr sy’n hygyrch i’r gymuned. Gobeithir y bydd gwahodd y gymuned i mewn i’r ysgol yn y ffordd yma o fudd i’r gymuned ac y bydd hefyd yn denu pobl i’r ysgol newydd.

Mae’r cynnig fel y saif yn un ar gyfer dau adeilad newydd a gyllidir â Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Mae’r naill yn dibynnu ar y llall. Ni fyddai modd bwrw ymlaen â’r cynllun fel un adeilad ysgol newydd.

Byddai’r safle’n cael ei ddylunio yn y fath fodd fel ei fod yn gwbl ddiogel gan ddefnyddio terfynau wedi’u ffensio a’r gallu i reoli ardaloedd trwy eu rhoi dan glo.

Byddai. Mae’r Awdurdod Lleol yn rhoi tâl blynyddol am reoli cyfleusterau caled. Byddai unrhyw refeniwiau’n dod yn ôl i’r ysgol.

**Atodiad 7**

Ffurflen ymateb a ddaeth i law (Mae ymateb yr Awdurdod Lleol wedi'i gynnwys mewn inc trwm):

## *Beth i'w ystyried?*

Fe'ch gwahoddir i ystyried y cynnig a chyflwyno'ch barn gan nodi pa un a ydych yn ei gefnogi ai peidio.

## Cwestiynau

**Enw (Llythrennau cyntaf):** L

**Dosbarth**: Oren

**Ysgol:** Ysgol Gynradd Corneli

**Ydych chi'n cefnogi'r cynnig:** **Ydw/Nac ydw**

**Os nad ydych yn cefnogi'r cynnig – nodwch pam:**

-

**Sylw/awgrymiadau/ceisiadau/cwestiynau**:

**Os hoffech awgrymu unrhyw newidiadau i'r cynigion a gyflwynir neu ddewisiadau eraill yn eu lle rhowch fanylion:**

Mae gennym 2 fuarth yn awr; a fydd gennym bedwar buarth pan fydd y ddwy ysgol yn uno?
Pa mor fawr fydd y buarthau?
Faint o ystafelloedd dosbarth fydd?

**Ymateb:**
**Nid oes dyluniad manwl ar gyfer yr ysgol newydd wedi cael ei gynhyrchu ar hyd o bryd – gan mai dim ond ymgynghori ynghylch y 'syniad' o ddarparu ysgolion newydd ydym (dylai'r broses ymgynghori fod wedi'i chwblhau ym mis Mehefin). Ar ôl yr ymgynghoriad, os bydd y Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynllun – dyna pryd y byddai'r cam dylunio manwl yn dechrau. Caiff ein holl ysgolion newydd eu dylunio i gwrdd â chanllawiau'r Bwletinau Adeiladu (Bwletin Adeiladu 99 sy'n berthnasol i Ysgolion Cynradd). Diben allweddol dogfen y bwletin adeiladu yw nodi canllawiau arwynebedd anstatudol ar gyfer adeiladau ysgolion cynradd. Gan nad yw'r gwaith dylunio ffurfiol wedi dechrau eto, ni allaf ond gwneud sylw ar hyn o bryd ar yr hyn y byddai'r dyluniad yn debygol o'i gynnwys o ran ystafelloedd dosbarth a mannau chwarae, sef:**

**Meysydd chwaraeon 8400 m2**
**Chwarae meddal (ANFFURFIOL A CHYMDEITHASOL) 2260 m2**
**Chwarae caled (ANFFURFIOL A CHYMDEITHASOL) 1030 m2**
**Ardal gynefin 620 m2**
**Cyrtiau chwaraeon (â wyneb caled) 1440 m2**
**2 Ystafell Ddosbarth ar gyfer y Meithrin**
**2 Ystafell Ddosbarth ar gyfer y Derbyn**
**4 Ystafell Ddosbarth ar gyfer y Babanod**
**8 Ystafell Ddosbarth ar gyfer y Plant Iau**
**Canolfan Adnoddau Dysgu**
**1 Ystafell Ddosbarth Arbenigol Ymarferol (Bwyd/Gwyddoniaeth/Celf)**
**'Stryd' fawr ag ardaloedd adnoddau lleol integredig (e.e. Llyfrgell)**

**Unrhyw sylwadau/cwestiynau eraill:**

A fydd gweithgareddau i'w chwarae ar y buarthau...cyrtiau pêl-fasged a phêl-droed?

**Ymateb:**
**Bydd. Pe bai'r cynllun hwn yn mynd yn ei flaen i'r cam dylunio manwl – byddem yn trefnu cyfarfodydd pellach gyda disgyblion i roi mewnbwn i ddyluniad yr ysgol newydd (e.e. marciau llinellau chwaraeon ac ati y byddai'r disgyblion yn eu hoffi ar gyfer y cyrtiau chwaraeon/buarthau).**

**Gohebiaeth uniongyrchol a ddaeth i law (Mae ymateb yr Awdurdod Lleol wedi'i gynnwys mewn inc trwm):**

Annwyl Syr,
Rwy'n ymddiheuro am y neges e-bost breifat; nid oeddwn yn gallu ymateb ar yr iPad, yr unig ddyfais sydd gennyf.

yw fy enw. Rwy'n aelod presennol o Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Afon y Felin, a minnau wedi bod yn gwasanaethu fel rhiant-lywodraethwr o 2006 tan 2019. Nid yw fy mhlant i fy hun yn mynychu'r ysgol mwyach

Rwy'n ansicr a yw'r cynllun sydd dan ystyriaeth o fudd i Gorneli neu beidio, ond hoffwn fynegi fy safbwynt.

Yn 2004 aeth fy mam â'm merch hynaf i dair ysgol leol. Afon y Felin (fy newis olaf yn flaenorol) oedd yr unig ysgol i groesawu fy mam a'm merch i mewn. Buan y gwnes i oresgyn fy rhagfarn, a chefnogi'r ysgol ym mha bynnag ffordd y gallwn. Rwyf wedi codi arian, wedi gwasanaethu ar y corff llywodraethu, wedi gweithio yno dros dro, wedi gwirfoddoli ac wedi ysgrifennu newyddion yr ysgol ar gyfer y wasg leol am sawl blwyddyn, felly rwy'n eithaf hoff o'r ysgol hon. Hefyd, dros y blynyddoedd, mae wedi bod yn destun balchder mawr bod nifer o blant, a hwythau'n methu ag ymgartrefu mewn ysgolion eraill, nid dim ond yn fodlon mynychu ein hysgol, ond eu bod hefyd y ffynnu ynddi.

Mae arnaf ofn y byddai'r llu o nodweddion sydd gennym yn cael eu colli mewn ysgol fwy. Mae pob athro ac athrawes yn adnabod pob disgybl, yn ogystal â gwybod pwy yw'r brodyr a chwiorydd a pherthnasau eraill. Rwy'n teimlo ein bod yn llwyddo mewn nifer o feysydd nad yw ysgolion mwy'n gallu llwyddo ynddynt. Ar un adeg roedd gennym hyd yn oed ddau frawd yn teithio i'r ysgol ar fws o'r Barri, ac fe lefodd y plentyn hŷn yn ddi-baid pan oedd rhaid iddo adael ar ddiwedd Blwyddyn Chwech. Nid yw hwn yn achos unigol; rydym wedi cael llawer o lwyddiant gyda phlant agored i niwed dros y blynyddoedd.

Fy mhrif bryder, ac rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno, yw diogelwch y plant. Fe adeiladwyd llwybr troed a oedd yn cysylltu'r ystâd fwy newydd ag Afon y Felin, er mwyn darparu llwybr diogel i'r ysgol. Fe'i defnyddir yn helaeth, gyda llawer o rieni'n caniatáu i blant gerdded i ac o'r ysgol ar eu pennau eu hunain am ei fod yn llwybr diogel. Mae fy ngŵr a minnau wedi meddwl cryn dipyn am yr agwedd ddiogelwch pe bai'r ysgol newydd yn mynd yn ei blaen fel a fwriedir. Dim ond dau ddewis sydd gan y plant pan ydynt yn cyrraedd diwedd y llwybr troed, sef croesi'r ffordd ar gamber croes, lle peryglus iawn yn wir, neu groesi ar y gyffordd rhwng Meadow Street a Heol y Parc. Mae'n fan lle cafwyd nifer o ddamweiniau a digwyddiadau trwch blewyn dros y blynyddoedd; mae anaf i un plentyn yn un anaf yn ormod hyd yn oed. Rwy'n bryderus iawn ynghylch y safbwynt hwn; mae gyrwyr ceir yn aml yn defnyddio ein hystâd ni fel cwrs rali; erfyniaf arnoch os gwelwch yn dda, os bydd y prosiect moderneiddio hwn yn mynd yn ei flaen, i roi ystyriaeth faith i'r mynediad diogel hwn cyn gwneud penderfyniad terfynol.
Rwy'n ymddiheuro os ydych wedi darparu ar gyfer hyn yn y ddogfen ymgynghori. Nid wyf wedi cael amser i'w darllen oherwydd amgylchiadau teuluol.
Diolch.
Yn gywir

**Ymateb yr Awdurdod Lleol:**

**Nid yw'r Awdurdod Lleol yn teimlo y byddai symud o ysgol lai i ysgol fwy'n cael effaith niweidiol ar safonau addysg nac yn arwain at ysgol fawr â phrofiad llai personol i'r disgyblion (lle na fyddai athrawon yn gallu dod i adnabod y plant a'u teuluoedd) na llai o ofal bugeiliol. Mae'n debygol y byddai'r holl athrawon presennol (o Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon Y Felin) yn trosglwyddo i'r ysgol newydd, felly nid yw'n debygol y byddai'r disgyblion yn cael athrawon newydd. Er y byddai gan yr ysgolion newydd arfaethedig nifer fwy o ddosbarthiadau, h.y. dwy ffrwd ym mhob grŵp blwyddyn, ni fyddai capasiti'r ystafelloedd dosbarth unigol yn fwy nag ydyw ar hyn o bryd (byddai mwy ohonynt, dyna'r oll). Byddai'r Awdurdod yn ceisio cynnal yr 'ethos' ysgol fach presennol yn yr ysgol newydd a byddai'n trefnu cydweithio agos rhwng staff yr ysgolion presennol ymhell cyn trosglwyddo er mwyn cyflawni hyn.**

**Byddai'r ysgolion newydd arfaethedig yn cael eu hadeiladu gan gydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu a byddent yn cael eu hadeiladu'n unol â safonau'r Bwletin Adeiladu (Fframwaith Briffio ar gyfer Prosiectau Ysgolion Cynradd – sy'n cyfeirio'n benodol at ddiogelwch personol a diogelwch eiddo). Byddai mynedfeydd a mannau gollwng yn cael eu pennu ar adeg y gwaith dylunio manwl, a byddent yn ddiogel ac yn cael eu goleuo gan Asesiad Trafnidiaeth Llawn (Mae Asesiadau Trafnidiaeth yn ystyried effaith y datblygiad ar yr holl ddulliau cludiant, yn nodi cynigion i leihau i'r eithaf effaith y datblygiad ar y rhwydwaith trafnidiaeth ac yn hyrwyddo mesurau i hybu cludiant sy'n gynaliadwy ac yn eco-gyfeillgar). Byddai unrhyw welliannau**

**angenrheidiol i'r rhwydwaith trafnidiaeth (gan gynnwys croesfannau, llwybrau troed, llwybrau beicio) a gâi eu nodi gan yr Asesiad Trafnidiaeth yn rhan o'r cynllun ar gyfer yr adeilad newydd arfaethedig.**

**Atodiad 8**

**Ymatebion i'r Ymgynghoriad ar gyfer Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr (Arolwg Ar-lein Snap – cyfieithiadau o sylwadau a gyflwynwyd yn Saesneg yw'r rhain oni nodir yn wahanol):**

**Nodwch eich rôl (trwy roi tic):**
Rhiant/gwarcheidwad (36) 78%
Staff ysgol (6) 13%
Parti arall â buddiant (rhowch fanylion) (3) 7%
Llywodraethwr ysgol (1) 2%
Disgybl ysgol (-)

**Ydych chi'n cefnogi'r cynnig:**
Nac ydw (25) 54%
Ydw (21) 46%

**Os nad ydych yn cefnogi'r cynnig – nodwch pam:**
Fel rhiant, fe anfonais fy mhlant i Afon y Felin am ei bod yn ysgol fach braf, gyda phawb yn adnabod ei gilydd a ninnau'n gallu mynegi ein barn wrth holl athrawon a Phennaeth Afon y Felin heb gael ein hanwybyddu. Mae Ysgol Gynradd Corneli'n ysgol fwy a dyna pam na wnes i anfon fy mhlant yno. Rydym yn dwlu ar Afon y Felin a fyddai pethau ddim yr un fath hebddi. Mae fy mhlant yn ffynnu yno a fyddwn i ddim am i unrhyw beth amharu arnynt.

Byddai'r ysgol yn mynd yn rhy fawr – profiad llai personol i'r holl blant sy'n mynychu!

Rwy'n credu bod yr "arch-ysgolion" hyn yn warth! Yn awr bydd rhaid i'm plant chwilio am ysgol arall y tu allan i'r dalgylch. Nid wyf am i'm plant fod mewn ystafell ddosbarth enfawr. Fe ddewisais i Afon y Felin gan ei bod yn ysgol fach hyfryd â dim mwy nag 20 ym mhob dosbarth a chan fod fy ngŵr yn athro mae'n dweud wrthyf fod mwy nag 20 o blant yn mynd ar goll yn y dosbarth a'ch bod yn methu ag addysgu'n iawn â mwy na hyn gyda 30+ o blant mewn dosbarth, ac mae plant sy'n ei chael yn anodd fel fi pan oeddwn yn blentyn yn mynd ar goll ac nid ydynt yn cael yr help a'r sylw y mae eu hangen arnynt. Fe wnes i fynychu ysgol gynradd fawr, sef Tremaen, ac yna Brynteg ac fe gefais i hi'n anodd drwy fy amser yn yr ysgol am y rheswm hwn felly roeddwn yn gwybod bod arnaf eisiau ysgolion bychain i'm plant gan bod fy mab fel fi – yn barod nid yw'n cael yr ysgol yn hawdd o gwbl. Bydd hyn yn ei dynnu o ysgol y mae'n dwlu arni ac yn mynd ag ef oddi wrth ffrindiau ac athrawon y mae'n dwlu arnynt hefyd. Rydych chi'n troi byd ac addysg plant wyneb i waered ar adeg pan fu digon o darfu ar eu haddysg yn y flwyddyn ddiwethaf a fydd yn effeithio arnynt trwy gydol eu hoes. Mae hwn yn gynnig gwarthus, yn cael gwared ag ysgol wych fel Afon y Felin, un o'r ysgolion olaf o'i bath ym Mhen-y-bont ar Ogwr gyda phennaeth a thîm anhygoel. Byddai'n golygu'r golled fwyaf i'n cymuned yng Ngogledd Corneli – nid oes ar neb eisiau ac nid oes neb yn gofyn am arch-ysgol; maen nhw i gyd yn hapus fel y maen nhw!! Peidiwch â thrwsio rhywbeth nad yw wedi torri.
Gadewch yr ysgolion a'n plant i fod.

Dydw i ddim yn meddwl y byddai bod ag un ysgol fawr nad yw'n ganolog i'r ardal gyfan o fudd i'r ardal na'r disgyblion yn enwedig gyda meithrin arfaethedig o 60. Mae fy mhlentyn hynaf yn mynd i Ysgol Gynradd Afon y Felin ar hyn o bryd, sef y lleiaf o'r ddwy ysgol yr ydych am eu huno. Fe ddewisais ei anfon i Afon y Felin am ei bod yn ysgol fach a bod yr holl ddisgyblion a staff yn adnabod pawb. Mae'r plant yn cael y sylw y mae ei angen arnynt ac mae hefyd yn rhoi'r cyffyrddiad personol rhwng staff, disgyblion a rhieni. Rwyf am i'm merch fynd i Afon y Felin hefyd gan bod fy mab wedi gwneud yn dda iawn yn academaidd yno a bod ganddo gysylltiadau agos â ffrindiau a staff ond pe bai'r ddwy ysgol yn uno i greu un ysgol fawr rwy'n meddwl y byddai hynny i gyd yn cael ei golli a bydd disgyblion yn dioddef a byddaf yn chwilio am ysgol fach y tu allan i'r ardal i'm merch ei mynychu, a dyna'r peth olaf y mae arnaf eisiau ei wneud ond rwy'n cytuno gyda gwneud yr ysgol Gymraeg, Ysgol Y Ferch O'r Sgêr, yn fwy.

Fe ddewison ni'r ysgol hon am ei bod yn fach ac yn cefnogi anghenion y plentyn yn fwy nag y byddai ysgol fwy'n ei wneud.

Mae'n ymddangos mai uno ysgolion fel yn y cynigion hyn yw'r bwriad ar gyfer yr holl ysgolion yng Nghymru. Mynydd Cynffig a Bro Morgannwg. Mae plant yn hapus yn yr ysgolion y maent yn eu mynychu a chyda'r athrawon sydd ganddynt. Mae Afon y Felin wedi gwella gyda help Mrs Williams ac wedi gweithio'n galed i ddatblygu'n ysgol werdd tra bo Corneli i'w gweld fel pe baent wedi llacio'u safonau i'r hyn oeddent. Bydd cynyddu meintiau ysgolion yn arwain at fwy o fwlio a thoriadau staffio. Mae'r pandemig wedi bod yn newid digon mawr i blant heb y cynnig a'r amser i adeiladu'r prosiectau hyn ac mae parcio i rieni lleol yn eithaf anniogel fel y mae hi heb uno'r ysgolion hyn. Mae'n wastraff arian pan fo pethau fel cabanau wedi cael eu defnyddio mewn ysgolion eraill ar gyfer ystafelloedd dosbarth ychwanegol.

Mae Afon y Felin yn ysgol fach a dyna pam y'i dewisais. Ni fyddai fy mhlant na fi'n mynychu ysgol fwy.

Fe ddewisais i Afon y Felin yn syml am ei bod yn ysgol mor fach. Fe wnaeth ffrindiau a theulu argymell yr ysgol oherwydd y cymorth y mae'r plant yn ei gael. Mae gan yr athrawon amser ar gyfer cymorth 1:1. Mae fy merch wedi datblygu'n wych ers mynychu ac rwy'n credu y byddai uno'r ysgolion yn lleihau'r cymorth hwn yn fawr. Bu digon o effaith ar blant a'u haddysg dros y flwyddyn ddiwethaf oherwydd y pandemig a'r peth diwethaf y mae ar blant ei angen ar ôl setlo'n ôl i mewn i addysg yw cael eu symud. Mae'r plant wedi ffurfio perthynas glòs gyda phob athro/athrawes i waeth ym mha flwyddyn y maent, sy'n wych yn fy marn i. Mae'r athrawon i gyd yn adnabod y plant er nad ydynt yn eu haddysgu eto. Mae'n gweithio'n dda iawn. Dydyn ni ddim am i unrhyw beth amharu ar hyn.

Rwy'n meddwl ei fod yn beth gwirion pan fo 3 ysgol yn agos at ei gilydd yn barod

Fe es i i'r ysgol gynradd honno pan oeddwn yn blentyn. Yn awr mae fy mab yn mynychu Dydw i ddim wedi teimlo unrhyw beth heblaw rhwyddineb gyda'r ysgol honno. Roedd dewis o 3 cyn i mi ei gofrestru yn Afon y Felin ac rwy'n teimlo fy mod wedi dewis yr un orau. Byddwn yn torri fy nghalon pe bai Afon y Felin yn mynd, yn enwedig oherwydd y sefyllfaoedd presennol o ran pam y dewisais beidio ag anfon fy mab i'r ddwy ysgol arall a nodwyd, am resymau personol. Rwyf hefyd wedi gwrthod cael fy symud o'm cartref pan allwn fod wedi cael budd o hynny dim ond am bod arnaf eisiau cadw fy mab yn Afon y Felin.

Dydw i ddim yn meddwl y bydd 'mega-ysgol' yn helpu ein plant

Fe ddewisais i ysgol fach ar gyfer addysg fy mhlant, nid ysgol fawr. Doeddwn i ddim am anfon fy mhlant i ysgol lle nad oedd athrawon yn gallu dod i adnabod y plentyn a'r teulu. Mae gan yr ysgol bresennol (Afon y Felin) gyfleusterau natur mor hyfryd a mannau gwyrdd prydferth i'r plant eu mwynhau. Mae'n amlwg mai penderfyniad sy'n ymwneud ag arian yw hwn, i gyfnewid tir fel bod V2C yn gallu codi tai yn lle bod gan blant fannau gwyrdd prydferth. Mae tylluan wedi bod yn byw ar dir yr ysgol yn ddiweddar sydd wedi tanio diddordeb y plant mewn natur. Bydd cyfnewid safleoedd ac adeiladu ar y tir hwn yn sicrhau mai ychydig iawn o gydadwaith fydd y plant yn ei gael â natur. Mae gosod ysgol newydd ar y safle arfaethedig mor siomedig, yn olygfa mor ofnadwy, llwm ac, a siarad yn blwmp ac yn blaen, diflas i'r plant. Ar hyn o bryd gall plant o ystadau lleol gerdded yn ddiogel i Afon y Felin heb ryw lawer o ffyrdd neu heb unrhyw ffyrdd i'w croesi. Bydd adeiladu'r ysgol newydd yn cynyddu traffig gan y bydd nifer o rieni wedyn yn dewis gyrru yn lle cerdded, gan gynyddu llygredd a bydd damwain yn digwydd gan bod pobl yn gyrru o gwmpas heb feddwl rhyw lawer o gwbl am eraill. Mae'r rhan fwyaf o ffyrdd yn cael eu defnyddio fel llwybrau osgoi yng Nghorneli. Yn amlwg dim ond cynllun i wneud arian yw hyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar draul addysg ein plant a'r ardal leol. Dylai fod cywilydd ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Fe hoffwn gadw fy merch yn yr ysgol y mae hi ynddi yn awr sy'n berffaith fel y mae.

Rwy'n hoffi Ysgol Gynradd Afon y Felin fel ag y mae, yn ysgol fach. Hefyd, bu digon o gythrwfl i'r plant gyda'u haddysg oherwydd y feirws a gorfod cau ysgolion!

Rwy'n credu'n bersonol bod y penderfyniad hwn yn un anghywir iawn. Roedd gen i'r dewis rhwng 2 ysgol yn fy ardal – Afon y Felin ddaeth i'r brig a jiw, dyna waith gwych maen nhw wedi'i wneud gyda fy mhlant. Maen nhw wedi datblygu bob yn llam, mae'r athrawon yn anhygoel, ac fe ddewisais i'r ysgol benodol honno am ei bod yn ysgol fach. Dyna'r prif reswm yr anfonais i fy mhlant yno yn lle Corneli. Hefyd, dydw i ddim yn meddwl bod safle Plas Morlais yn ddewis da ychwaith. Nid yw'n breifat; rheswm arall y dewisais i Afon y Felin yw ei bod yn bell i ffwrdd oddi wrth dai ac wedi'i gorchuddio gan goed, ac alla i ddim gweld sut rydych chi'n mynd i ffitio ysgol fawr mewn ardal mor fach. Bydd y golygfeydd yn ofnadwy i'r plant ac mae tai'n edrych dros yr ysgol – dydych chi byth yn gwybod pwy sy'n eich gwylio. Fydda i'n sicr ddim yn teimlo'n gysurus yn anfon fy mhlant i ysgol yn y fan honno a chyn sicred â mod i'n fyw fyddwn i ddim yn gadael iddynt ei mynychu; byddwn yn symud i ardal arall fel Margam.

Yn ystod pandemig rwy'n credu y byddai'n well gwario'r arian ar rywbeth arall fel dechrau'r gwaith ar y feddygfa yng Ngogledd Corneli.

Rwy'n hoffi Afon y Felin fel y mae hi.

Dydw i ddim yn cefnogi'r cynnig. Mae gen i nifer o resymau. Yn gyntaf, nid wyf yn teimlo bod y mwyafrif o'r plant sy'n byw yn yr ardal ac yn mynychu Ysgol Gynradd Corneli ac Afon y Felin wedi cael eu hystyried yn ddigonol gyda'r cynnig. Nid yw'r safle sydd wedi cael ei gynnig yn llain ddigon mawr i ganiatáu cyfleusterau chwarae digonol ac rwy'n credu y byddant yn rhannu'r rhain gyda'r ysgol cyfrwng Cymraeg newydd arfaethedig ar eu safle nhw. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i'r plant yn yr ysgol gyfunol fynd i safle gwahanol ar gyfer gweithgareddau. Mae safle presennol Ysgol Gynradd Corneli'n llain fwy o lawer ac yn fwy canolog i'r holl ystadau yng Ngogledd Corneli. Rwy'n teimlo'u bod yn cael eu gwthio i'r naill ochr ar gyfer yr ysgol cyfrwng Cymraeg sydd â nifer llai o blant o Gorneli'n mynychu a llawer yn cael eu cludo i mewn i'r ardal ar fysiau. Rwy'n credu bod llawer o dai newydd

yn cael eu cynllunio ar gyfer Greenfield Terrace a safle presennol Afon y Felin hefyd. Mae Gogledd Corneli wedi cael ei foddi â thai ac mae bellach yr un maint â thref fach yn hytrach na phentref a hynny heb unrhyw seilwaith. Mae meddygfa yno sydd ddim yn addas ar gyfer y diben, un fferyllfa sy'n ei chael yn anodd ar hyn o bryd a dim deintyddion. Mae Corneli'n haeddu ysgol dda ond gallai ysgol cyfrwng Cymraeg sydd â phlant o bob rhan o'r sir gael ei hadleoli i unrhyw le. Hefyd, fel un o breswylwyr Greenfield Terrace, byddwn yn pryderu faint o faterion o ran preifatrwydd ac aflonyddwch fyddai'n deillio o adeiladu ysgol fwy ar y safle. Byddwn i'n dychmygu y byddai'n well gan breswylwyr o'r ardal o gwmpas yr ysgol newydd arfaethedig ar Ystâd Marlas gael estyniad i'w gerddi fel bod eu plant yn gallu chwarae'n ddiogel yn eu gerddi. Ceir hefyd y mater sy'n ymwneud â thraffig cynyddol o amgylch y safle arfaethedig. Mae'n ymddangos bod tai a gorboblogi'n bwysicach i'r Cyngor na lles plant.

Rwy'n anghytuno â rhai o'r rhesymau a roddwyd yn y ddogfen ymgynghori, yn enwedig y rhai sy'n cyfeirio at gyflwr adeilad yr ysgol yn Afon y Felin. Rwyf hefyd yn credu y byddai safle Afon y Felin yn ddewis gwell ar gyfer yr ysgol newydd.

Rwy'n credu y bydd yn amharu ar dawelwch y strydoedd cyfagos; bydd modd gweld i mewn i dai cyfagos. Bydd maint y traffig yn yr ardal o amgylch yn cynyddu ac yn achosi anhrefn. Bydd parcio'n broblem i'r strydoedd bychain gerllaw gan y bydd rhieni'n dewis y rhain i barcio i gael mynediad at yr ysgol.

Mae gan yr ysgol statws gwyrdd ac rydym am ei chadw fel ysgol fach. Yn bennaf gan bod gan fy mhlentyn alergeddau difrifol a'i fod yn wynebu mwy o risg o ran cael ei EpiPens gyda nifer fwy o blant. Mae anfon fy mhlentyn i Ysgol Gynradd Afon y Felin yn lleihau'r risg yn lle bod mwy o blant i roi sylw iddynt. Gadewch bethau fel y maen nhw i ni!

Oherwydd fy mod wedi dewis Afon y Felin i'm merch ei mynychu am yr union reswm ei bod yn ysgol lai gyda dosbarthiadau llai sy'n galluogi athrawon i roi mwy o sylw i'r disgyblion. Hefyd, mae fy merch yn mynd trwy amser digon anodd ar hyn o bryd heb wneud iddi newid ysgol, a hithau wedyn o bosibl yn gorfod ymgyfarwyddo ag athrawon newydd a ffrindiau newydd. Rwy'n gobeithio, os bydd digon o bobl yn gwrthwynebu'r cynllun yna ni fydd yn mynd yn ei flaen. Rwyf fi fy hun hefyd yn dioddef gydag iechyd meddwl ac nid wyf yn dygymod yn dda iawn â newid oherwydd natur fy nghyflwr felly byddai gen i lawer o rwystrau i'w goresgyn pe bai'r ysgol hon yn mynd yn ei blaen fel a fwriedir. Rwyf wedi datblygu perthnasoedd da â'r staff yn Afon y Felin ac rwy'n teimlo'n gysurus gyda'u cymorth. Byddai'n drueni i mi golli hyn i gyd a gorfod dechrau'r broses eto a hithau wedi cymryd bron i 2 flynedd i mi gyrraedd y cam hwn.

Oherwydd fy mod wedi dewis bod fy mhlentyn yn mynd i Afon y Felin gan bod aelodau o'r teulu yn Ysgol Corneli y mae'n rhaid i mi gadw draw oddi wrthynt ac nad wyf yn gallu mynd ar eu cyfyl o gwbl ac ni fydd yn deg ar fy mhlentyn.

Does gen i ddim barn y naill ffordd neu'r llall ar y cynlluniau o ran y sector Saesneg. Er fy mod i'n gefnogol iawn i'r egwyddor o hyrwyddo addysg Gymraeg yng ngorllewin y sir, ni allaf gefnogi'r cynlluniau arfaethedig. Ar hyn o bryd mae lleoedd ar gael yn Ysgol y Ferch o'r Sgêr, felly mae yna le iddi ehangu a chynyddu'r ddarpariaeth leol yn barod. A dweud y gwir mae'r nifer yn yr ysgol wedi cwympo dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r cyngor yn gywir i nodi bod cyflwr truenus yr adeiladau presennol yn debygol o fod yn ffactor sy'n achosi i drigolion beidio ag eisiau anfon eu plant yno. Fodd bynnag, ffactor arall yw pellter a thrafnidiaeth. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal enfawr â mwyafrif ei phoblogaeth yn byw ym Mhorthcawl, cryn bellter o safle'r ysgol. Mae ysgol y Ferch o'r Sgêr wedi'I lleoli'n

dda i wasanaethu ardla y Pîl / Cynffig; fodd bynnag, o Borthcawl y gellid tybio y bydd mwyafrif y tyfiant disgwyledig yn dod. Mae Porthcawl yn dref ag iddi boblogaeth o 20,000 ac debyg mae hi yw un o'r trefi mwyaf yng Nghymru heb unrhyw ddarpariaeth cynradd Cymraeg yn lleol. Er mwyn cael addysg yn y Gymraeg mae'n rhaid i blant deithio i Ysgol y Ferch o'r Sgêr ar fysiau. Mae arolygon barn mynych ym mhob man o Gymru wedi awgrymu bod rhieni'n bodlon iawn anfon eu plant i addysg Gymraeg os yw'r ddarpariaeth yr un mor agos â'r ddarpariaeth amgen. Digon rhesymegol felly yw disgwyl y byddai ysgol gynradd Gymraeg newydd ym Mhorthcawl yn hybu tyfiant llawer yn fwy nag ehangu Ysgol y Ferch o'r Sgêr. Os am gynyddu'r lleodd mewn addysg Gymraeg yn yr ardal felly, a gwneud hynny mewn ffordd y byddai'n hyrwyddo addysg Gymraeg, onid y ffordd amlwg o wneud hynny fyddai darpariaeth newydd yn ardal Porthcawl, yn hytrach nag ehangu ysgol nad yw'n agos at fod yn llawn ar hyn o bryd? Yn sicr, mae angen adnewyddu cyfleusterau Ysgol y Ferch o'r Sgêr. Ond petai'r cyngor yn dyblu ei faint byddai hynny'n gwthio yn ôl unrhyw benderfyniad i gynnig darpariaeth leol ym Mhorthcawl, yn enwedig (fel sy'n debygol iawn o ddigwydd) pe bai'n cymryd blynyddoedd lawer i Ysgol y Ferch o'r Sgêr gyrraedd ei llawn maint. Mae perygl y byddai hynn'n "cloi" y sefyllfa presenol, a llesteirio tyfiant addysg gymraeg ym Mhorthcawl, am ddegawd neu ragor. Mae'r cyngor yn nodi y byddai agor ysgol newydd yn ddrud oherwydd dim ond niferoedd bychain byddai'n ei mynychu i ddechrau. Fodd bynnag mae'r model o agor ysgolion cwbl newydd ar y model "seedling" wedi gweithio dro ar ôl tro mewn ardaloedd megis y Barri a Chasnewydd. Ond anhebyg y byddai'r cyngor yn gallu cyfiawnhau hynny wedi cynyddu'r ddarpariaeth yn Ysgol y Ferch o'r Sgêr i'r fath raddau a'r cynlluniau arfaethedig. *(Sylwadau a gyflwynwyd yn Gymraeg)*

Mae Ysgol Afon y Felin wedi bod yn ysgol ardderchog ac mae'n ymwneud llawer â'r gymuned.

Mae'r ysgol gyda'r staff a chorff llywodraethu ymroddedig, a hwythau wedi gweithio'n gydlynus fel tîm i symud yr ysgol o Goch i Wyrdd, wedi datblygu ysgol sydd â safonau da/rhagorol. Mae'r ysgol wedi tyfu mewn maint yn flynyddol ac mae bellach yn cael ei hystyried yn ysgol uchel ei pharch yn y gymuned a'r tu hwnt gan gynnwys Consortiwm Canol De Cymru. Mae pawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol gan gynnwys rhieni/gwarcheidwaid a disgyblion yn falch iawn o'r cyflawniadau. Mae symiau sylweddol o arian wastad wedi bod ar gael i'w defnyddio i wella a chyfoethogi profiad y dysgwyr a gwneud gwelliannau i'r adeiladau. Ar hyn o bryd mae llawer o'r dysgwyr/teuluoedd o'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg yn dewis yr ysgol oherwydd y trefniadau pontio cryf. Mae gan yr ysgol statws cryf ar gyfer datblygu'r Gymraeg fel ail iaith. Mae golygfa a safle'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu awyr agored gwych i ddisgyblion ddatblygu eu hiechyd a'u lles. Mae llawer o'n rhieni'n dewis yr ysgol oherwydd yr ethos cymunedol y gall ysgol fach ei ddarparu. Mae'r holl lwybrau beicio wedi cael eu datblygu at yr ysgol i ddarparu mynediad diogel. Y pryder yw: A'r adeilad newydd ar y safle a gynigir fyddai'r datrysiad gorau i'r gymuned?

**Os hoffech awgrymu unrhyw newidiadau i'r cynigion a gyflwynir neu ddewisiadau eraill yn eu lle rhowch fanylion:**
Yr unig bryder yw diogelwch plant mewn perthynas â pharcio ac ati. A fydd lle diogel a digon ohono i ollwng plant a.y.b.?

Rwy'n meddwl y byddant yn rhoi cyfle gwell i blant yr ardal wrth edrych tua'r dyfodol.

Mae angen adeilad newydd sbon ar Ysgol y Ferch o'r Sgêr, un sy'n addas ar gyfer addysgu yn yr 21ain ganrif. *(Sylw a gyflwynwyd yn Gymraeg)*

Rwy'n cefnogi'r cynnig hwn gan ei fod yn cynnwys ehangu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.

Gadewch yr ysgolion fel y maen nhw!!

Gadewch Ysgol Gynradd Afon y Felin ac Ysgol Gynradd Corneli fel dwy ysgol ar wahân ond gan ddiweddaru eu hadeiladau presennol ac ati efallai ac o ran yr ysgol Gymraeg dewch o hyd i ardal fwy ar gyfer honno a bwriwch ymlaen â'r cynlluniau i'w gwneud yn ysgol fwy gan mai dyna'r unig ysgol Gymraeg yn yr ardal.

Efallai Dosbarth(iadau) Arsylwi'r Blynyddoedd Cynnar/ Cyfnod Sylfaen i ddisgyblion hefyd.

Rhowch y gorau i geisio uno ysgolion a gadewch i blant, athrawon a rhieni aros ble maen nhw a pha blant y gallant eu helpu gydag ystafell ddosbarth lai.

Dim ond y ddarpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg sydd o ddiddordeb i mi. Rwy'n teimlo'n gryf bod y cynigion wedi mynd i'r afael â nifer o broblemau y mae YFOS wedi'u hwynebu dros y blynyddoedd diwethaf ac wedi darparu datrysiadau, e.e. clirio'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw, darparu adeilad ar gyfer yr 21ain ganrif sy'n addas ar gyfer safonau addysgu modern a gwella ymddangosiad ffisegol y safle i gynyddu nifer y derbyniadau. Ceir un agwedd nad yw wedi cael sylw yn fy marn i, sef lleoliad y safle. Byddai'n ddelfrydol pe bai YFOS wedi'i lleoli ar safle mwy niwtral i ddenu mwy o ddisgyblion posibl o Orllewin Pen-y-bont ar Ogwr, e.e. Porthcawl. Mae'r lleoliad presennol yn annymunol gan rai; byddai safle niwtral yn cynyddu'r niferoedd sy'n dewis addysg Gymraeg yn sylweddol.

Cam enfawr ymlaen i Gorneli. Fel athro/athrawes, fel rhiant ac fel preswylydd lleol rwy'n gwybod fy mod i fy hun a'm teulu'n blês iawn gyda'r datblygiad. Roeddwn i'n meddwl tybed beth am y mynedfeydd a thraffig? A fydd mwy nag un fynedfa? Pryd fydd cynlluniau ar gael?

Rwy'n falch i weld ysgolion lleol yn cael eu gwella. Mae gan fy merch Anghenion Addysgol Arbennig felly mae gweld y bydd darpariaeth ar gyfer hyn ar gael mewn ysgol fwy lleol yn wych. Hefyd, mae ei brawd eisoes yn mynychu Ysgol Gynradd Corneli felly byddai'n braf pe bai'r ddau blentyn yn yr un ysgol.

Cadwch Ysgol Gynradd Corneli lle y mae hi a defnyddio 'Ysgol Fabanod Marlas' eto, sef yr ysgol Gymraeg ar hyn o bryd. Bydd yn ddigon mawr wedyn i uno'r ddwy ysgol. Wedyn symudwch yr ysgol Gymraeg i hen safle Afon y Felin.

Ychwanegwch Ganolfan Adnoddau Dysgu'r Cyfnod Sylfaen fel bod continwwm o ddarpariaeth arbenigol yng nghlwstwr Cynffig, yr holl ffordd drwodd i'r cyfnod uwchradd.

Efallai hyd yn oed rhoi'r 2 ysgol gyda'i gilydd a gadael Afon y Felin allan o'r cynnig oherwydd rwy'n meddwl efallai y gallai'r ysgol gael budd o rywfaint o waith i'w huwchraddio yn unig yn hytrach na dymchwel Afon y Felin.

Os taw moderneiddio yw'r grym ysgogi allweddol ar gyfer hyn yna ewch ati i foderneiddio'r ysgol bresennol, edrychwch ar y tir prydferth, gosodwch ystafelloedd dosbarth dros dro yn eu lle tra'r ydych yn moderneiddio'r ysgol bresennol. Mae'r ysgol mewn llecyn mor brydferth gyda chymaint o fanteision i'r plant. Peidiwch â gwastraffu'r tir hwnnw ar dai cymdeithasol; mae digon ohonynt yng Nghorneli'n barod. Os oes ar yr ysgol Gymraeg

angen adeilad newydd, gosodwch hwnnw ar safle Plas Morlais, yn lle uno dwy ysgol gan gynyddu llygredd a thraffig yn yr ardal.

Gadewch yr ysgol fel y mae ond byddai peth arian ar gyfer system aerdymheru'n dda a thimau chwaraeon.

Rwy'n meddwl y dylech adael yr ysgolion fel y maen nhw. Diwedd y gân yw'r geiniog. Pam na wnewch chi ei wario ar foderneiddio'r ysgolion sydd gennym ac adeiladu uned fach i blant y mae angen cymorth ychwanegol arnynt gyda'u haddysg gan y gwn i nad yw hynny ar gael yng Nghorneli ar hyn o bryd oherwydd cyllid. Mae plant yn cael eu hanfon i wahanol ysgolion filltiroedd i ffwrdd i gael y cymorth y mae ei angen arnynt, ac nid yw hynny wir yn deg arnyn nhw yw e?! Hefyd, rydym ynghanol pandemig; beth am y feddygfa newydd y mae'r Cyngor wedi bod yn awyddus i'w hadeiladu am flynyddoedd ac yn dal heb allu ei wneud eto? Gellir gwario'r arian ar bethau eraill. Dydw i ddim yn talu fy nhreth gyngor bob mis i beidio â bod â llais mewn penderfyniadau ynghylch sut i wario'r arian.

Gwariwch yr arian ar ddechrau'r gwaith ar y feddygfa yng Ngogledd Corneli yn lle hynny.

A yw dichonoldeb cyfuno'r 2 ysgol cyfrwng Saesneg fel yr ysgol newydd ar safle presennol Ysgol Gynradd Corneli wedi cael ei ystyried o ddifrif o safbwynt mynediad i gerbydau?

Naill ai chwiliwch am safle ar gyfer yr ysgol cyfrwng Cymraeg yn rhywle arall neu lleolwch y ddwy ysgol newydd ar safle presennol Ysgol Gynradd Corneli/Ysgol Y Ferch O'r Sgêr gan ei fod yn safle anferth ac mae lle i'r ddwy yno, siawns.

Dylid lleoli'r ysgol newydd ar safle Afon y Felin.

Gadewch yr ysgolion fel y maen nhw neu defnyddiwch safleoedd presennol ac adeiladwch arnynt.

Pam na allant uwchraddio Ysgol Gynradd Afon y Felin ac estyn yr ysgol? Maen nhw newydd adeiladu castell ar dir yr ysgol i'r plant a byddai hynny'n wastraff arian.

Mwy doeth o lawer byddai ail-adeiladu Ysgol y Ferch o'r Sgêr fel ysgol 1FE ynlle 2FE, tra'n ymrwymo I sefydlu ysgol Gynradd newydd yn ardal Porthcawl. *(Sylw a gyflwynwyd yn Gymraeg)*

Nid yw'r lle yr ydych yn bwriadu rhoi'r ysgol newydd mewn lleoliad da iawn i rieni ar gyfer parcio i ollwng a chasglu plant. Cwestiwn: Os ydych yn bwriadu rhoi'r tir y mae Afon y Felin arno i V2C a bod rhagor o dai gennym, oni fyddai hynny'n effeithio ar adnoddau eraill yn yr ardal?

Mae Afon y Felin wedi profi ei hun yn ysgol ragorol, yn un o hoelion wyth yr Awdurdod mewn cymaint o ffyrdd, a byddai ei chau a chael gwared ar ei henw o blaid adeilad ac enw newydd yn golygu bod yr holl waith caled a wnaed i gyflawni hyn yn cael ei golli. Rwy'n cytuno bod adeilad newydd yr 21$^{ain}$ Ganrif ar gyfer addysg yn yr ardal hon yn atyniadol iawn i'r gymuned felly a fyddai'r Awdurdod Lleol yn ystyried ehangu ein hysgol ar ein safle ni fel dewis gwell?

**Unrhyw sylwadau eraill:**

Rhowch y gorau i geisio adeiladu mwy o dai ar dir sy'n eiddo i'n hannwyl ysgol a chalon ein cymuned ni a chymuned ein plant.

Mae llawer o rieni wedi symud eu plant o Gorneli i Afon y Felin am amryw resymau e.e. bwlio neu fod anghenion ddim yn cael eu diwallu am ei bod yn ysgol fawr yn barod felly dydw i ddim yn meddwl y bydd llawer o rieni'n cefnogi'r cynlluniau i uno'r ddwy ysgol am y rhesymau y gwnaethant eu tynnu allan o ysgol fawr a'u rhoi mewn ysgol lai.

Rwy'n meddwl ei fod y tu hwnt i bob deall bod hyn yn cael ei drafod yn ystod pandemig pan fo cymaint o blant eisoes ar eu colled trwy fod heb addysg sylfaenol.

Rwy'n hapus bod y rhan fwyaf o anghenion wedi cael sylw gan y cynigion. Bydd ymgyrch marchnata ffyrnig ar gyfer y cyfleuster cyfrwng Cymraeg newydd, gan dargedu Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr, yn hanfodol, e.e. byrddau poster, llwyfannau'r cyfryngau lleol a digwyddiadau lleol.

Cam gwych ymlaen i'r gymuned leol. Rwyf mor falch y bydd gan fy mhlant fynediad at y cyfleusterau newydd sbon yma. Fel preswylydd lleol rwy'n ei weld fel datblygiad hynod gadarnhaol i'r gymuned.

Rwy'n pryderu'n fawr ynghylch arweinyddiaeth a rheolaeth yn Ysgol Y Ferch O'r Sgêr ar hyn o bryd a byddwn yn gobeithio, gydag ysgol wedi'i hehangu, y byddai llawer o waith yn cael ei wneud i wella'r ysgol. Gobeithio y bydd pennaeth ac uwch dîm arwain newydd yn cael eu hadnabod; fel arall, rwy'n ofni mai'r cwbl y bydd ysgol fwy'n ei wneud fydd ychwanegu at y pwysau y mae'r staff eisoes yn eu hwynebu.

Ni fyddwn yn symud fy mab i mewn i'r "ysgol ag adeilad newydd"; byddai'n rhaid mynd ag ef i Fynydd Cynffig gan fy mod wedi ei hosgoi am resymau penodol.

Dydw i ddim yn meddwl mai dyma'r lle iawn na'r peth iawn i'w wneud o gwbl. Nid yw plant yn hoffi newid; prin y maent wedi bod yn yr ysgol yn y flwyddyn ddiwethaf, ac mae eu diwreiddio eto pan fyddant i gyd wedi setlo'n ôl pan fydd hynny'n digwydd yn y pen draw i'w symud i arch-ysgol gydag athrawon newydd ac ati yn broses bontio mor anodd iddynt ac yn un y gwn y bydd fy mhlant i'n ei chael yn anodd.

Pa warantau ellir eu rhoi i staff addysgu ar y brif raddfa ynghylch trosglwyddo cyfrifoldebau swyddi a llofnodi contractau cyflogaeth newydd? Yn yr un modd, pa strwythurau Swyddogion Cymorth Dysgu ydych chi'n dychmygu fyddai'n ymarferol ac yn briodol? A fydd adnoddau llyfrgell a digidol priodol a digonol ar gyfer yr holl ddisgyblion? A yw neuadd addysg gorfforol a chwaraeon ar wahân yn ddichonadwy yn lle'i gwasgu i mewn i amserlen gyda ffreutur yr ysgol? A fydd lle ar gael ar y safle i staff weithio ar y safle yn ystod cyfnodau addysgu digyswllt? A all yr ystafell staff fod o faint mwy priodol gyda chyfleusterau cegin addas? A ellir darparu nifer priodol o doiledau ar gyfer staff? Sicrhewch, os gwelwch yn dda, nad yw agoriadau ffenestri mor uchel fel ei fod yn golygu, os mai dim ond 5 troedfedd 2 fodfedd ydych, bod angen i chi sefyll ar fwrdd i allu eu cyrraedd!
Mae gwyntyllau i'w defnyddio mewn tywydd poeth yn y dosbarth yn anghenraid ynghyd â bleinds rholio nad ydynt yn torri'n gyson. Dylai fod gan bob dosbarth Fwrdd Gwyn Rhyngweithiol o'r un safon. Yn yr un modd, o ran byrddau arddangos sydd fel arfer yn chwerthinllyd o uchel i rywun byr eu cyrraedd. Mae lleoedd storio hylan yn anhepgor ar gyfer pecynnau cinio'r disgyblion yn ogystal ag ystafelloedd cotiau addas. Os oes sinciau yn yr ystafelloedd dosbarth, eto mae angen iddynt fod o ansawdd da / safon dda.

Cyfarpar oeri dŵr cymunol – nid wyf yn hoff o hyn gyda'r rheoliadau hylendid cyfredol – beth am orsafoedd dŵr mewn ystafelloedd dosbarth? A fydd cyfleusterau ystafell newid ar gyfer Addysg Gorfforol ar gael? Yn olaf, un peth cwbl anhepgor yw'r angen i roi ffens ddiogel o amgylch yr ardaloedd parcio ar gyfer staff fel nad yw disgyblion a rhieni'n eu defnyddio fel llwybr tarw pan fo staff yn mynd i mewn ac allan o safle'r ysgol mewn modd cyfrifol.

Rwy'n teimlo bod gallu dewis ysgol lai'n bwysig iawn a bod llawer o rieni yn Afon y Felin wedi dewis yr ysgol oherwydd hyn. Fe wnes i fy hun, fel rhiant, ddewis ysgol fach ar gyfer fy mhlant fy hun er mwyn iddynt gael gofal bugeiliol gwell ac ethos 'teulu' a gwerthfawrogi'r cyfleoedd y gall amgylchedd ysgol lai eu darparu.

Bydd y safle newydd hefyd yn tarfu ar y llygod mawr niferus sydd yno ac yn achosi iddynt geisio lloches yn rhywle arall gan achosi plâu pellach o lygod mawr yn ein cartrefi.

Dydy'r ddogfen ymgynghori ddim yn dangos bod y cyngor wedi rhoi llawer o ystyriaeth i'r syniad o sefydlu ysgol newydd ym mhorthcawl. *(Sylw a gyflwynwyd yn Gymraeg)*

**Ymatebion/esboniadau'r Awdurdod Lleol mewn perthynas â chrynodeb o'r materion a godwyd:**

Pryderon ynghylch diogelwch personol/diogelwch eiddo, parcio, traffig

Mae'r Awdurdod Lleol yn gwrthod y pryderon a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch diogelwch personol, diogelwch eiddo a thraffig/llygredd ar y sail y byddai'r ysgolion newydd arfaethedig yn cael eu hadeiladu gan gydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Adeiladu a byddent yn cael eu hadeiladu'n unol â safonau'r Bwletin Adeiladu (Fframwaith Briffio ar gyfer Prosiectau Ysgolion Cynradd – sy'n cyfeirio'n benodol at ddiogelwch personol a diogelwch eiddo). Byddai mynedfeydd a mannau gollwng yn cael eu pennu ar adeg y gwaith dylunio manwl, a byddent yn ddiogel ac yn cael eu goleuo gan Asesiad Trafnidiaeth Llawn (Mae Asesiadau Trafnidiaeth yn ystyried effaith y datblygiad ar yr holl ddulliau cludiant, yn nodi cynigion i leihau i'r eithaf effaith y datblygiad ar y rhwydwaith trafnidiaeth ac yn hyrwyddo mesurau i hybu cludiant sy'n gynaliadwy ac yn eco-gyfeillgar). Byddai unrhyw welliannau angenrheidiol i'r rhwydwaith trafnidiaeth (gan gynnwys croesfannau, llwybrau troed, llwybrau beicio) a gâi eu nodi gan yr Asesiad Trafnidiaeth yn rhan o'r cynllun ar gyfer yr adeilad newydd arfaethedig

Pryderon ynghylch symud o ysgol fach i ysgol fwy

Nid yw'r Awdurdod Lleol yn teimlo y byddai symud o ysgol lai i ysgol fwy'n cael effaith niweidiol ar safonau addysg nac yn arwain at ysgol fawr â phrofiad llai personol i'r disgyblion (lle na fyddai athrawon yn gallu dod i adnabod y plant a'u teuluoedd) na llai o ofal bugeiliol. Mae'n debygol y byddai'r holl athrawon presennol (o Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon Y Felin) yn trosglwyddo i'r ysgol newydd, felly nid yw'n debygol y byddai'r disgyblion yn cael athrawon newydd. Er y byddai gan yr ysgolion newydd arfaethedig nifer fwy o ddosbarthiadau, h.y. dwy ffrwd ym mhob grŵp blwyddyn, ni fyddai capasiti'r ystafelloedd dosbarth unigol yn fwy nag ydyw ar hyn o bryd (byddai mwy ohonynt, dyna'r oll). Byddai'r Awdurdod yn ceisio cynnal yr 'ethos' ysgol fach presennol yn yr ysgol newydd a byddai'n trefnu cydweithio agos rhwng staff yr ysgolion presennol ymhell cyn trosglwyddo er mwyn cyflawni hyn.

Pryderon ynghylch maint/cyfleusterau'r safle

Nid yw'r Awdurdod Lleol yn derbyn y pryderon a godwyd yn yr ymatebion ymgynghori bod maint y safleoedd arfaethedig yn annigonol. Mae dadansoddiad 'prawf-ffitio' a gwblhawyd gan reolwyr prosiectau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru wedi dangos bod y safleoedd yn ddigon mawr i dderbyn ysgolion newydd arfaethedig yr 21ain ganrif. Cafodd yr arwynebeddau a argymhellir yn y Bwletin Adeiladu (Fframwaith Briffio ar gyfer Prosiectau Ysgolion Cynradd) ar gyfer ysgolion cynradd newydd (gan gynnwys pob math o le mewn ysgolion cynradd e.e. ardaloedd addysgu, ardaloedd cylchdroi, meysydd chwarae, cyrtiau chwaraeon, ardaloedd chwarae meddal, ardaloedd chwarae caled ac ardaloedd cynefin) eu cymharu â'r tir sydd ar gael ar y safleoedd i sicrhau eu bod o faint digonol. Bydd dyluniad yr ysgolion newydd arfaethedig yn unol â safonau dylunio'r Bwletin Adeiladu (ac yn rhoi ystyriaeth lawn i e.e. wynebwedd, ffensys, plannu, diogelwch personol a diogelwch eiddo, preifatrwydd, materion amgylcheddol, ynni, awyru, acwsteg a goleuadau). Penderfynwyd ynghylch parhad arfaethedig (yn yr ysgol cyfrwng Saesneg newydd arfaethedig) canolfan adnoddau anghenion dysgu ychwanegol bresennol Ysgol Gynradd Corneli trwy ddadansoddiad o'r angen ac ymgynghori â Gwasanaeth Cynhwysiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Ystyrir nad oes digon o alw am unrhyw ddarpariaeth arbenigol bellach.

Pryderon ynghylch yr amseriad

Nid yw'r Awdurdod Lleol yn derbyn y feirniadaeth a nodwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad mewn perthynas ag amseriad yr ymgynghoriad. Mae dyletswydd statudol ar yr Awdurdod Lleol i sicrhau'r nifer gofynnol o leoedd addas ar gyfer disgyblion yn ei ardal. Mae'r graddfeydd amser ar y cyfan sy'n gysylltiedig â chynnal yr ymgyngoriadau angenrheidiol mewn perthynas ag ad-drefnu ysgolion, sicrhau'r cymeradwyaethau angenrheidiol gan Lywodraeth Cymru, sicrhau'r cyllid angenrheidiol a dylunio ac adeiladu ysgolion newydd yn golygu, er mwyn sicrhau nifer gofynnol y lleoedd addas ar gyfer disgyblion erbyn y bydd eu hangen, y bu'n rhaid cynnal yr ymgynghoriad rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2021. Fodd bynnag, roedd yn anffodus bod y pandemig wedi cyd-daro â'r cyfnod ymgynghori.

Cyflwr adeilad Ysgol Afon Y Felin

Mae'r Awdurdod Lleol yn gwrthod yr anghytundeb a fynegwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch cyflwr adeilad Ysgol Gynradd Afon Y Felin. Darparwyd y ffigwr o £525,450 ar gyfer yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw gan syrfewyr proffesiynol a benodwyd gan Adran Landlord Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac mae'r sgôr a roddwyd i gyflwr adeilad yr ysgol yn golygu bod yr adeilad ar hyn o bryd yng nghategori C+ (Gwael – yn dangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel a fwriadwyd).

Plâu o lygod mawr

Nid yw'r Awdurdod Lleol yn derbyn yr haeriad a wnaed y bydd datblygu'r safleoedd arfaethedig yn achosi plâu o lygod mawr mewn cartrefi. Pe byddid yn bwrw ymlaen â'r cynnig, byddai arolygon daearegol, arolygon ecolegol, ac arolygon draenio yn cael eu cynnal o'r safleoedd a mesurau lliniaru'n cael eu rhoi ar waith yn unol ag argymhellion yr arolygon. Yn nodweddiadol, mae pibellau segur heb eu canfod o dan y ddaear yn un o brif achosion plâu o lygod mawr. Byddai'r arolygon draenio a fyddai'n ofynnol ar gyfer datblygu'r safleoedd yn canfod pibellau presennol o dan y ddaear a byddai pibellau segur problemus yn cael eu tynnu oddi yno.

Codi tai yn yr ardal

Mae'r Awdurdod Lleol yn gwrthod y farn a fynegwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad mai 'ymarfer i wneud arian' yw'r cynnig a'i fod wedi'i ysgogi gan ddyhead i godi mwy o dai yn yr

ardal. Fel a nodir yn y ddogfen ymgynghori, fe ysgogwyd y cynnig yn gyfan gwbl gan yr angen i ddarparu lleoedd addas a digon ohonynt ar gyfer disgyblion. Ni fydd y weithred cyfnewid tir arfaethedig gyda chymdeithas dai Valleys to Coast yn creu unrhyw incwm i'r Awdurdod (dim ond dull o sicrhau'r safle y mae ei angen i ddatblygu'r ysgol ydyw). Byddai unrhyw gynigion yn y dyfodol ar gyfer codi tai y gallai cymdeithas dai Valleys to Coast eu cyflwyno ar gyfer safle Ysgol Gynradd Afon Y Felin yn gorfod cael y cymeradwyaethau cynllunio angenrheidiol (a fyddai'n ystyried, ymhlith pethau eraill, effeithiau ar seilwaith lleol).

Opsiynau eraill

Mae nifer o opsiynau eraill wedi cael eu cyflwyno yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad (e.e. gadael yr ysgol fel y maen nhw, lleoli'r ysgol cyfrwng Cymraeg ym Mhorthcawl, gadael Ysgol Gynradd Afon y Felin ac Ysgol Gynradd Corneli fel dwy ysgol ar wahân ond diweddaru'r adeiladau presennol, gwario i foderneiddio'r ysgolion sydd gennym, gadael Ysgol Gynradd Afon y Felin allan o'r cynnig a'i huwchraddio yn unig). Fel a eglurwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae pob un o'r tair ysgol bresennol sy'n rhan o'r cynnig yn nesáu at ddiwedd eu hoes ddylunio, maent mewn cyflwr gwael (yn dangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel a fwriadwyd) ac mae ganddynt ôl-groniad sylweddol iawn o ofynion cynnal a chadw. Yn ogystal â bod mewn cyflwr gwael, ni chafodd yr adeiladau presennol eu dylunio i safonau ysgolion yr 21$^{ain}$ ganrif ac nid ydynt yn benthyca'u hunain i gael eu haddasu fel eu bod yn cyrraedd y safonau hynny.

Fel a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, cafodd yr opsiwn i adael yr ysgolion presennol fel y maent ei ddiystyru'n bennaf am nad yw'r opsiwn hwn yn gynaliadwy, am nad yw'n cyflawni strategaeth ac yn cyrraedd nodau'r Awdurdod ac am y byddai'n peri anfantais i genedlaethau'r dyfodol o ddysgwyr trwy beidio â diwallu'r angen am leoedd ar gyfer disgyblion sy'n addas ar gyfer yr 21$^{ain}$ ganrif. Gallai arwain at brinder o ran lleoedd addysg oherwydd y twf a ragwelir mewn tai yn yr ardal yn y dyfodol. Mae ysgolion mewn cyflwr gwael iawn ar hyn o bryd ac nid oes cyfleusterau priodol ganddynt i ddiwallu anghenion y cwricwlwm modern i'r eithaf. Byddai unrhyw amrywiad i'r opsiynau sy'n golygu gadael ysgol benodol allan o'r cynnig yn amlwg yn peri anfantais i ddisgyblion yr ysgol honno am y rhesymau a nodir uchod. Yn realistig, yr unig safleoedd yn yr ardal sy'n ddigon mawr ar gyfer yr ysgolion arfaethedig (ac eithrio Meysydd Chwarae Gogledd Corneli, na fyddai'r Awdurdod yn dymuno'u defnyddio oherwydd defnydd helaeth gan y gymuned) yw safle presennol Ysgol Gynradd Corneli a'r tir sy'n eiddo i Valleys to Coast.

Fe ymrwymodd Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn 2020 i egwyddor darparu ysgol cyfrwng Cymraeg newydd ym Mhorthcawl. Pe bai cynnig Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr yn mynd yn ei flaen, ni fyddai ar draul darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym Mhorthcawl yn y dyfodol. Mae cynllun Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr fel y'i cynigir wedi'i fwriadu i ateb y galw am leoedd ar gyfer disgyblion a fyddai'n cael eu creu trwy dai posibl yn yr ardal agos yn y dyfodol, i hybu'r Gymraeg a chynyddu niferoedd y plant o ysgolion meithrin nas cynhelir sy'n trosglwyddo i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg. Mae adolygiad cyfan gwbl ar wahân o ardal 'Porthcawl' wedi cael ei gynnal ac mae cynllun ar gyfer ysgol cyfrwng Cymraeg newydd ym Mhorthcawl yn y dyfodol yn cael ei ddatblygu.

Byddai eitemau etifeddol o ddodrefn ac offer o'r ysgolion presennol y mae'r ysgolion yn nodi bod eu hangen yn cael eu trosglwyddo i'r ysgolion newydd pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen. O ganlyniad, ni ddylid ystyried o gwbl bod cyllid a wariwyd yn ddiweddar ar gestyll chwarae ac ati wedi cael ei wastraffu.

Roedd yr opsiynau ar gyfer ardal Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori'n benllanw ar ddadansoddiad o opsiynau o ran addysg ac opsiynau o ran safleoedd gan swyddogion addysg a swyddogion technegol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Cafodd yr opsiynau eu nodi yn Achos Busnes Amlinellol Strategol yr Awdurdod a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru, sydd wedi cael ei gymeradwyo. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu hystyried ac mae'r Awdurdod yn dymuno cyhoeddi'r cynnig fel yr ymgynghorwyd yn ei gylch.

**Atodiad 9**

**Ymateb Estyn i'r cynnig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i ddirwyn Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon y Felin i ben a sefydlu ysgol newydd o 1 Medi 2023 a gwneud newid a reoleiddir i Ysgol Y Ferch O'r Sgêr trwy ehangu'r ysgol o 2 Medi 2024.**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn mewn perthynas â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn darparu eu barn dim ond ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigydd a gwybodaeth ychwanegol megis data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortiwm Rhanbarthol sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion ar gyfer yr ysgolion yn y cais.

**Crynodeb/ Casgliad**

Mae'r cynnig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn un i ddirwyn Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon y Felin i ben a sefydlu ysgol newydd o 1 Medi 2023. Maent hefyd yn cynnig ehangu Ysgol Y Ferch O'r Sgêr a hynny o 2 Medi 2024.

Mae'r Cyngor yn nodi sail resymegol eglur dros ei gynnig. Mae'n cynnwys cael gwared ag ôl-groniad gwerth tuag £1.5m o waith cynnal a chadw rhwng y tair ysgol, y mae'n ystyried eu bod mewn cyflwr gwael, a hwythau'n dangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel a fwriadwyd. Mae'r cynnig hefyd yn ymdrin â'r angen am leoedd cyfrwng Cymraeg ac i hybu twf y Gymraeg.

Mae'r cynigydd wedi ymgynghori'n eang, gan gynnwys â phlant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr, staff yr ysgolion, ystod eang o bartïon â buddiant ac aelodau'r cyhoedd. Barn Estyn yw ei bod yn debygol y bydd y cynnig o leiaf yn cynnal y ddarpariaeth addysg ar gyfer disgyblion yn yr ardal.

**Disgrifiad a'r manteision**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi nodi manteision y cynnig hwn yn glir. Bydd y cynnig yn cael gwared ag ôl-groniad mawr o waith cynnal a chadw, gan agor ysgol gynradd newydd 2 ffrwd gyda meithrin â 60 o leoedd a chanolfan adnoddau Anghenion Dysgu Ychwanegol â 15 o leoedd. Bydd hefyd yn cynyddu'r capasiti ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Mae'r Cyngor wedi ystyried un anfantais bosibl i'r cynllun ac mae ganddo ddatrysiad a ddylai negyddu hyn. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn manylu'n ddigon eglur ar yr effaith bosibl ar y ddarpariaeth Dechrau'n Deg ar safle Afon y Felin, na sut y bydd y Cyngor yn mynd i'r afael â hyn.

Mae’r cynnig yn nodi tair risg i’r prosiect, sef gwrthwynebiadau i’r cynnig, bod costau’n fwy na’r gyllideb sydd ar gael a chostau anhysbys gwaith i’r seilwaith. Mae’r gwrthfesurau ar gyfer y risgiau hyn yn cynnwys cyfathrebu effeithiol a mynd ati’n gynnar i gomisiynu asesiad trafnidiaeth i oleuo’r gyllideb ar gyfer gwaith priffyrdd. Mae diffyg manylion gyda’r mesurau hyn o ran sut y bydd y prosiect yn symud ymlaen os caiff y risgiau eu gwireddu.

Nid yw’n glir o’r cynnig sut y bydd datblygiad graddol Ysgol Y Ferch O’r Sgêr ar ei newydd wedd, ac wedi’i hehangu’n gweithio. Fodd bynnag, mae’n rhesymol tybio ei bod yn anochel y bydd cyflawni prosiect mor fawr ar y safle’n amharu ar ddysgwyr, a dylid egluro sut y bwriedir sicrhau ei fod yn amharu gyn lleied â phosibl arnynt.

Mae’r Cyngor wedi ystyried dewisiadau eraill addas, gan gynnwys parhau â’r trefniadau presennol. Mae’r rhesymau dros ddiystyru’r dewisiadau eraill yn rhesymol, megis bod safle’n rhy fach i ehangu, ansawdd gwael yr adeiladau presennol sy’n atal rhag ehangu a’r ffaith nad yw dewisiadau eraill yn cyflawni’r ymrwymiadau yn y CSCA neu Cymraeg 2050.

Mae’r safleoedd arfaethedig ar gyfer yr ysgolion newydd lai na 0.3 milltir i ffwrdd o safleoedd presennol yr ysgolion, ac mae felly’n rhesymol disgwyl na ddylai hyn effeithio ar drefniadau teithio gan ddysgwyr, gan gynnwys siwrneiau i ddarpariaeth amgen, ac amseroedd siwrneiau ar gyfer disgyblion ag AAA.

Mae’r Cyngor yn sylweddoli y bydd cynyddu capasiti Ysgol Y Ferch O’r Sgêr yn cynyddu nifer y lleoedd gwag yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae wedi rhoi ystyriaeth addas i gynllun datblygu lleol yr Awdurdod wrth bennu’r strategaeth hirdymor ar gyfer addysg yn yr ardal. Mae’n credu bod ysgol cyfrwng Cymraeg 2 ffrwd yn briodol i ardal Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr (yng ngoleuni’r galw am leoedd ar gyfer disgyblion a fyddai’n cael ei greu gan dai posibl yn y dyfodol, yr angen i hybu’r Gymraeg a’r angen i gynyddu niferoedd y plant o ysgolion meithrin nas cynhelir sy’n trosglwyddo i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg). Mae’r Cyngor wedi ystyried i ba raddau y mae’r cynnig hwn yn cefnogi targed y CSCA ac mae’n rhesymol tybio y bydd nifer y rhai sy’n dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yn cynyddu o ganlyniad i’r cynnig.

**Agweddau addysgol y cynnig**

Mae’r Cyngor wedi ystyried y safonau, y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth ym mhob un o’r tair ysgol sy’n rhan o’r cynnig. Mae’n nodi bod safonau ym mhob un o’r tair ysgol gynradd wedi gwella ers eu harolygiadau diwethaf gyda’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da neu well ar draws yr ysgol, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan yr holl ysgolion feysydd ar gyfer gwella sy’n debyg fwy neu lai ac sy’n gysylltiedig â llythrennedd, datblygu’r Cwricwlwm i Gymru a llesiant. Mae’n deg tybio na fyddai cymuned fwy’n effeithio ar y meysydd blaenoriaeth hynny.

Mae’r sir yn nodi bod ansawdd yr addysgu yn Ysgol Gynradd Corneli, Ysgol Gynradd Afon y Felin ac Ysgol Y Ferch O’r Sgêr yn dda neu’n well. Er bod yr Awdurdod Lleol yn ystyried bod pob ysgol yn gwneud y gorau o’u hamgylchoedd, mae’n deg tybio ei bod yn debygol y byddai profiadau dysgwyr yn gwella gyda chyfleuster modern, pwrpasol fel a gynigir. Er bod y cynnig yn ystyried arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ysgolion, nid yw’n gwneud hynny’n ddigon cryf. Prif ystyriaeth y cynigydd yw’r broses gategoreiddio ddiwethaf ar gyfer yr ysgolion, a gynhaliwyd ym mis Medi 2019.

Nid yw’r ysgol newydd a fydd yn disodli Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon y Felin wedi cael ei sefydlu eto a chan hynny, nid oes corff llywodraethu ganddi. Mae hyn yn

golygu nad yw strwythur staffio'r ysgol wedi'i sefydlu eto, ac nad oes unrhyw aelodau o staff wedi cael eu penodi i unrhyw swyddi. Mae angen un pennaeth yn llai hefyd. Mae hyn oll yn creu risg gynhenid nad ymdrinnir â hi'n ddigon cryf yn y cynnig.

**Ymatebion/esboniadau'r Awdurdod Lleol mewn perthynas â chrynodeb o'r materion a godwyd:**

Mae ystyriaethau o ran arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer yr ysgolion yn rhan annatod o'r gwaith cynllunio ar gyfer y cynnig hwn. Pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, byddid yn ymlynu wrth broses ddyladwy a chanllawiau adnoddau dynol i sicrhau corff llywodraethu (CLl) cryf ar gyfer yr ysgol. Bydd y cyrff llywodraethu presennol yn gweithio ochr yn ochr â chorff llywodraethu cysgodol nes bod yr ysgol newydd yn cael ei hagor, pan fydd y CLl cysgodol yn ysgwyddo pwerau llawn CLl.

Bydd swydd y Pennaeth yn cael ei neilltuo ar gyfer un o'r penaethiaid parhaol presennol, i sicrhau parhad.

**Atodiad 10**

## ASESIAD DAN DDEDDF CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

| | |
|---|---|
| **Disgrifiad o'r Prosiect (nodau allweddol): Cynnig i ddirwyn Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon y Felin i ben a sefydlu ysgol 'newydd' o 1 Medi 2023 a gwneud newid a reoleiddir i Ysgol Y Ferch O'r Sgêr trwy ehangu'r ysgol o 2 Medi 2024.** | |
| **Adran 1** | **Cwblhewch y tabl isod i asesu pa mor dda yr ydych wedi cymhwyso'r 5 ffordd o weithio.** |
| **Hirdymor**<br><br>(Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd) | **1. Sut mae eich prosiect / gweithgaredd yn sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r tymor hir a chynllunio ar gyfer y dyfodol?** |
| | Cafodd y cynllun hwn ei adnabod trwy ddull strategol cydweithredol gyda swyddogion o adrannau allweddol yn y Cyngor. Fe wnaeth grŵp strategol ystyried data cyfredol a rhagamcanol gan gynnwys capasiti ysgolion, tai, cyflwr adeiladau a.y.b. Mae'r prosiect hwn wedi cael ei sefydlu ar sail ddaearyddol/anghenion ar sail rhestr hir o opsiynau, i adnabod yr opsiwn hwn a ffefrir. Wrth ystyried yr opsiwn hwn, rhoddodd y tîm ystyriaeth i anghenion tymor hir dyletswydd statudol yr awdurdod lleol i ddarparu digon o leoedd ar gyfer disgyblion a hybu'r Gymraeg. |
| **Atal**<br><br>(Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus | **2. Sut mae eich prosiect / gweithgaredd yn dyrannu adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu?** |
| | Caiff y ddarpariaeth o ran lleoedd mewn ysgolion ei hadolygu'n flynyddol i sicrhau bod cyflenwad digonol a bod adeiladau addas i ddarparu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae'r cynlluniau wedi cael eu hadnabod i sicrhau y gellir darparu lleoedd ar gyfer disgyblion yn y dyfodol ac i atal disgyblion rhag methu â chael lle mewn ysgol. Bydd rhai cynlluniau penodol hefyd yn sicrhau bod y Cyngor yn cynorthwyo |

| | |
|---|---|
| i gyflawni eu hamcanion) | gydag ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn Cymraeg 2050. Mae dyletswydd statudol ar gynghorau i sicrhau bod cyflenwad digonol o leoedd mewn ysgolion, a bydd y cynlluniau hyn yn diogelu sefyllfa'r Cyngor o ran unrhyw her gyfreithiol bosibl yn hyn o beth. |
| **Integreiddio**<br><br>(Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill) | **3. Sut mae eich prosiect / gweithgaredd yn cyflawni deilliannau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol gyda'i gilydd?**<br><br>Mae darparu digon o leoedd yn sicrhau bod y cwricwlwm yn gallu cael ei ddarparu a'i fod yn cyflawni amcanion cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol disgyblion a'r gymuned y bydd yr ysgolion yn ei gwasanaethu. Bydd cynlluniau'n hybu cynhwysiant. Bydd defnydd cymunedol o gyfleusterau'n cael ei archwilio a lle y bo'n briodol bydd hynny'n cael ei ymgorffori yn y dyluniad. Bydd y gwaith adeiladu'n cael ei roi ar dendr cystadleuol gan Lywodraeth Cymru/WEPco a bydd manteision cymunedol yn cael eu cynyddu i'r eithaf. |
| **Cydweithio**<br><br>(Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant. | **4. Sut mae eich prosiect / gweithgaredd yn cynnwys cydweithio gyda phartneriaid (mewnol ac allanol) i gyflawni amcanion llesiant?**<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydweithio'n effeithiol gydag ysgolion, Estyn, Consortiwm Canol De Cymru, cyrff iechyd, cynghorau cymuned a llawer o bartneriaid mewnol ac allanol i sicrhau bod yr adeilad yn diwallu anghenion y defnyddwyr a'r gymuned y bydd yn ei gwasanaethu yn y tymor byr a'r tymor hir. Bydd swyddogion sy'n datblygu'r cynllun yn sicrhau bod dyluniad yr adeilad yn gynaliadwy ac yn defnyddio ynni'n effeithlon. Wrth werthuso'r rhestr o opsiynau sydd ar gael, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r ffordd orau o wneud i'r cynlluniau weithio'n effeithiol er mwyn defnyddio adnoddau yn y ffordd orau bosibl a manteisio ar y gwariant gan sicrhau bod y cynlluniau'n diwallu anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. |
| **Cynnwys**<br><br>(Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y maent yn ei gwasanaethu) | **5. Sut mae eich prosiect / gweithgaredd yn cynnwys rhanddeiliaid sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant? Sut mae'r rhanddeiliaid hyn yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal?**<br><br>Datblygir cynlluniau o restr hir o opsiynau, sy'n cynnwys addysg a'r safle. Caiff y rhain eu gwerthuso'n systematig ac maent yn arwain at ddatblygu a mireinio pellach. Mae gwaith yn cynnwys ymgysylltu â'r holl randdeiliaid posibl gan gynnwys y Cabinet, aelodau, llywodraethwyr, staff, disgyblion, y gymuned, partneriaid mewnol ac allanol a fydd yn cynnwys mudiadau'r 3ydd sector.<br>Cynhelir ymgynghoriad statudol ynghylch y cynnig dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion. |

| Adran 2 | Aseswch pa mor dda y bydd eich prosiect / gweithgaredd yn dwyn manteision lluosog i'n cymunedau ac yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol (defnyddiwch Atodiad 1 i'ch helpu). | |
|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r Nodau Llesiant** | **Sut fydd eich prosiect / gweithgaredd yn dwyn manteision i'n cymunedau dan y nodau llesiant cenedlaethol?** | **A oes unrhyw ffordd o gynyddu i'r eithaf y manteision neu leihau i'r eithaf yr anfanteision i'n cymunedau (a'r cyfraniad at y nodau llesiant cenedlaethol)?** |
| **Cymru lewyrchus** Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. | Bydd cwmnïau adeiladu'n cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru/WEPco ac felly'n gorfod ymlynu wrth strategaethau cynaliadwyedd a ddatblygwyd ar gyfer adeiladu a chyrraedd targedau ar gyfer ailgylchu. Disgwylir iddynt hefyd ddarparu manteision cymunedol ar bob prosiect. Gallai hyn gynnwys darparu prentisiaethau, profiad gwaith a chyflogaeth yn ogystal â chyfleoedd cyflogaeth fel y bo'n briodol. | Byddem yn cynyddu'r manteision i'r eithaf trwy sicrhau bod rhai agweddau allweddol penodol yn cael eu nodi yn y contract adeiladu. |
| **Cymru gydnerth** Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). | Bydd cynlluniau'n cael eu datblygu i sicrhau nad oes unrhyw effaith niweidiol ar yr amgylchedd. | Amherthnasol |
| **Cymru iachach** Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. | Mae cyfleusterau gwell ar gyfer disgyblion, staff a'r gymuned ehangach yn hybu llesiant corfforol a meddyliol. | Sicrhau bod yr adeilad yn cael ei ddylunio yn unol â'r rheoliadau cyfredol. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial | Bydd cynlluniau'n gwbl gynhwysol o ran eu dyluniad ac yn hybu | Sicrhau bod dyluniad yr adeilad yn gwbl gynhwysol ac yn diwallu anghenion y |

| | | |
|---|---|---|
| ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). | cyfleoedd i'r holl ddisgyblion ddysgu, datblygu a chyrraedd eu llawn botensial. | disgyblion a'r cymunedau a wasanaethir ganddo. |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. | Byddwn yn meithrin perthnasoedd da â'r cymunedau y bydd yr ysgolion yn eu gwasanaethu, gan gydweithio'n agos gyda hwy i hybu cyfleoedd i ymgysylltu trwy gydol y prosiect ac wedi hynny. | Mae cyfleusterau gwell ar gyfer ysgolion yn cyflwyno cyfleoedd ar gyfer mwy o ddefnydd gan y gymuned. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**<br>Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. | Bydd y Gymraeg yn cael ei hybu gan y Cyngor ym Mand B, gan felly gefnogi nod Cymraeg 2050. Bydd cynlluniau'n cael eu dylunio fel eu bod yn hybu cyfleoedd i gyfranogi. | Byddai ysgolion yn darparu'r cwricwlwm llawn yn well a fyddai'n cynnwys Cymraeg, ei diwylliant, ei threftadaeth a chwaraeon. Byddai defnydd o gyfleusterau gan y gymuned yn helpu i oleuo'r dyluniad gan sicrhau bod y cyfleusterau'n hygyrch. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**<br>Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. | Mae'n debygol y bydd rhai deunyddiau'n cael eu caffael o'r tu allan i Gymru, gan felly gefnogi'r economi fyd-eang. | Er mwyn lleihau unrhyw effaith negyddol i'r eithaf, byddem yn ceisio sicrhau bod y mwyafrif o ddeunyddiau ar gael gan gyflenwyr yng Nghymru. |

| Adran 3 | A fydd eich prosiect / gweithgaredd yn effeithio ar bobl neu grwpiau o bobl â nodweddion gwarchodedig? Eglurwch beth fydd yn cael ei wneud i gynyddu i'r eithaf unrhyw effeithiau cadarnhaol neu leihau i'r eithaf unrhyw effeithiau negyddol | | |
|---|---|---|---|
| Nodweddion gwarchodedig | A fydd eich prosiect / gweithgaredd yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar y rhai â nodwedd warchodedig? | A fydd eich prosiect / gweithgaredd yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar y rhai â nodwedd warchodedig? | A oes unrhyw ffordd o gynyddu i'r eithaf yr effeithiau cadarnhaol neu leihau i'r eithaf unrhyw effeithiau negyddol? |
| Oedran: | Bydd | Na fydd | Sicrhau amgylchedd ysgol gwell ar gyfer disgyblion |
| Ailbennu rhywedd: | Na fydd | Na fydd | Amherthnasol |
| Priodas neu bartneriaeth sifil: | Na fydd | Na fydd | Amherthnasol |
| Beichiogrwydd neu famolaeth: | Na fydd | Na fydd | Amherthnasol |
| Hil: | Na fydd | Na fydd | Amherthnasol |
| Crefydd neu Gred: | Na fydd | Na fydd | Amherthnasol |
| Hil: | Na fydd | Na fydd | Amherthnasol |
| Rhyw: | Na fydd | Na fydd | Amherthnasol |
| Y Gymraeg: | Bydd | Na fydd | Fe allai fod lleoedd cyfrwng Cymraeg ychwanegol ar gael mewn ysgolion, a fydd o gymorth i hybu'r Gymraeg |

| Adran 4 | Nodwch pwy sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar gyfer y Prosiect/gweithgaredd e.e. Cabinet, Cyngor neu benderfyniad dirprwyedig gan Aelodau Gweithredol a/neu Brif Swyddogion |
|---|---|
| Cabinet | |
| **Enw'r Swyddog sy'n Cwblhau:** | Rheolwr Prosiect |
| **Teitl Swydd y Swyddog sy'n Cwblhau:** | Rheolwr Prosiect Ysgolion |
| **Dyddiad cwblhau:** | 11 Rhagfyr 2020 (diweddarwyd 14 Mawrth 2021) |

**Atodiad 11**

**Rhestr o randdeiliaid**

- Corff Llywodraethu, rhieni, staff, gofalwyr, gwarcheidwaid a disgyblion Ysgol Gynradd Afon y Felin, Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Y Ferch O'r Sgêr
- Ysgolion eraill o fewn y clwstwr/yr ardal
- Awdurdodau cyfagos
- Awdurdodau Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Babyddol
- Gweinidogion Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Aelodau Cynulliad (ACau) Etholaethol a Rhanbarthol ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi
- Estyn
- Undebau llafur y staff addysgu a staff cymorth sy'n cynrychioli athrawon ac aelodau eraill o staff mewn unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi
- Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canol De Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
- Cynghorau Tref a Chymuned sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi
- Darparwyr meithrin annibynnol neu wirfoddol y gallai'r cynnig effeithio arnynt gan gynnwys y Mudiad Meithrin
- Tîm Gofal Plant/Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant lle y bônt yn bresennol
- Aelodau'r Cabinet
- Y Bwrdd Rheoli Corfforaethol
- Aelodau'r Wardiau
- Rheolwr Grŵp Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cynhwysiant
- Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.
  Tîm Iechyd Meddwl Sylfaenol, GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.
- Y Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd, GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.
- Pediatryddion, GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.
- Therapi Galwedigaethol (OT) GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg.

- Y Gwasanaeth Ffisiotherapi: GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.
- Seicolegwyr Addysg, Y Gwasanaeth Seicoleg Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
- Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- SNAP Cymru
- Barnardo’s Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg